
Tudalen 7 **DIWRNOD MACMILLAN** | Tudalen 16 **SEINDORF DEINIOLEN** | Tudalen 20 **DOSBARTH MEITHRIN**

# ECO'r Wyddfa

Rhif: 407
Chwefror 2013
Pris: 50c




## Pryder am ddiffyg pont.



*Y Cynghorydd Elfed Williams wrth ymyl y gwaith trwsio dros-dro ar bont Caledffrwd.*

Ddiwedd Tachwedd y llynedd, o ganlyniad i'r llifogydd arswydus a effeithiodd ar y fro, mae pont dros afon Caledffrwd yn parhau heb ei thrwsio. Mae'r diffyg hwn yn achosi cryn drafferthion i bentrefwyr Deiniolen a Chlwt y Bont, ac mae'r Cynghorydd Elfed Williams yn flin fod addewid a roddwyd gan Gyngor Gwynedd i drwsio'r bont erbyn y gwanwyn, bellach wedi ei dorri.

Dywedodd wrth ohebydd yr "Eco" fod Cyngor Gwynedd wedi dweud y byddai'r bont ger yr Hen Felin yn cael ei hatgyweirio "ar ddechrau'r gwanwyn." Erbyn hyn, fodd bynnag, aeth dechrau'r gwanwyn yn "rhywbryd tua diwedd yr haf i ddechrau'r hydref." Mae hynny yn golygu y bydd bron i flwyddyn gyfan wedi mynd heibio cyn ail-adeiladu'r bont.

Yn y cyfamser, mae pont droed yn cael ei gosod ar draws yr afon – roedd gweithwyr wrthi'n paratoi'r safle pan ymwelodd yr "Eco", ac o bosib y bydd ar agor erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd. Bydd hyn yn lleddfu rhywfaint ar drigolion Clwt y Bont sy'n defnyddio llwybr cyhoeddus gyfochrog â'r afon i gyrraedd Ffordd Deiniol a'r syrjeri, y clinic a'r siop yn Neiniolen.

Ond mae trigolion yr ardal yn mynnu fod angen pont lôn yn ôl ar fyrder oherwydd yr anghyfleustra sy'n cael ei achosi.

Teg gofyn hefyd a ddylai cost ail-osod y bont fod yn gyfangwbl yn gyfrifoldeb Cyngor Gwynedd. Onid oes gan Gynulliad Cymru gronfa wrth gefn i gynorthwyo cymunedau led-led Cymru sydd wedi dioddef oherwydd effeithiau difrifol llifogydd dros y flwyddyn ddiwethaf? Amser a ddengys mae'n debyg; ond yn y cyfamser, mae'n ymddangos y bydd yn rhaid i drigolion Clwt y Bont a Deiniolen ddygymod â phont droed yn unig.

## Haf yn Cyflwyno Siec




*Haf yn cyflwyno'r siec i Dr Esyllt Llwyd ar gyfer Meddygfa Waunfawr a Llanrug.*

**Ar gyfer 2012 dewisodd Haf Thomas godi arian i ddwy Feddygfa leol. Bu'n brysur ar hyd y flwyddyn yn cynllunio cardiau o bob math a bu gwerthiant ei chardiau Nadolig yn arbennig o dda. Mae Haf yn dymuno diolch i bawb am eu cefnogaeth arferol ac am bob cyfraniad ariannol a dderbyniodd tuag at yr Elusen.**

Eco Chwefror 2013.indd 1 28/01/2013 20:39

# ECO'r Wyddfa

## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2012

| Rhifyn | Copi i law | Plygu | Ble |
|---|---|---|---|
| Mawrth | Chwefror 17eg | Chwefror 28ain | Llanrug |
| Ebrill | Mawrth 17eg | Mawrth 28ain | Cwm y Glo |


**RHIF 407**
**Chwefror 2013**
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911



**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Straeon ac erthyglau**
**ar e-bost i**
**Dafydd Whiteside Thomas**
**Bron y Nant, Llanrug**
**01286 673515**
**ecorwyddfa@gmail.com**

**CADEIRYDD**
**Y PWYLLGOR GWAITH**
Geraint Elis

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (238495)
glasgoed@hotmail.com

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Eifion Roberts, Swn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD BWNDELU**
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

**GOHEBWYR PENTREFI**
**DEINIOLEN:** Nia Gruffudd (872133)
**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726
**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO:** Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts, Swn-y-Gwynt (870740)
**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
**NANT PERIS:** Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon (871820)
**PENISARWAUN:**
**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan
grid 76
dylunio graffeg
07766956673


## LLYTHYRAU

Gweld Gwyddoniaeth
59 Stryd Siarl
Caerdydd CF10 2GD
02090 801644

Annwyl Gyfeillion

Carwn, drwy gyfrwng eich papur bro, annog eich darllenwyr i ymaelodi gyda Rhaglen Llysgenhadon STEM yng Nghymru.

Mae'r rhaglen yn galluogi unrhyw un sydd â sgiliau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM) i ysbrydoli pobl ifanc a dangos posibiliadau gyrfaoedd ynglŷn â phynciau STEM.

Mae Llysgenhadaeth STEM yn ddosbarth eang iawn yn cynnwys gwyddonwyr, fferyllwyr, ffermwyr, peirianwyr sifil, deintyddion, cyfrifwyr a phrentisiaid i enwi ond ychydig.

Her Llysgenhadon STEM yw mynd i ysgolion i ysbrydoli disgyblion i ddilyn gyrfaoedd sydd yn ymwneud â phynciau STEM. Mae cyfleoedd addas yn cael eu cynnig, yn cynnwys ystod eang o weithgareddau fel rhoi sgyrsiau gyrfaoedd, mentora, helpu gyda phrosiectau mewn clybiau STEM ar ôl ysgol neu ddyddiau her a beirniadu cystadlaethau. Maent hefyd yn cefnogi ac ysbrydoli athrawon yn y dosbarth ac yn eu helpu i ddiweddaru eu gwybodaeth o wyddoniaeth gyfoes, technoleg a phrosesau ymchwil.

Mae rhaglen Llysgenhadon STEM yn anelu at:
* ysbrydoli pobl ifanc ynglŷn â STEM;
* annog pobl ifanc i ystyried gyrfa a chymwysterau STEM;
* gwella cyflawniad academaidd mewn pynciau STEM;
* datblygu sgiliau cyflogadwyedd eraill, gan gynnwys hyder, gwaith tîm, cyflwyniad a chreadigrwydd.

Mae'r manteision o fod yn Llysgennad STEM yn cynnwys:
* teimlad o gyflawniad;
* cael persbectif newydd o ddydd i ddydd trwy lygaid myfyrwyr;
* helpu i wneud gwahaniaeth yn y gymuned leol;
* datblygu hyder a sgiliau newydd.

Gall unrhyw un dros 17 oed gyda sgiliau neu ddiddordeb mewn pyntiau STEM gofrestru yn Llysgennad STEM. Y nodweddion pwysicaf yw bod yn frwdfrydig a chadarnhaol ynglŷn â STEM.

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch gyda cenhadon@gweld-gwyddoniaeth.co.uk neu i ymuno yn y Rhaglen ewch i www.stemnet.org.uk.

Edrychwn ymlaen i glywed gennych

Yn gywir
Cerian Angharad

### GERAINT REES MORRIS

I gofio'n dyner am Ger a hunodd yn dawel ar yr ugeinfed o Ionawr 2012. Amser a gilia, Hiraeth a erys. Gŵr, tad, mab, brawd ac ewythr annwyl iawn, un o filiwn. Eira, Gwenno, Siôn-Ifan, Elis Arddu, Beca, Jac bach, teuluoedd Cefn coch a Brynrefail.

### Cofio Geraint

**Fel mae'r nos yn dilyn dydd,**
**Gorffwyso ar obennydd.**
**Edrych 'nôl gan fyw mewn ffydd,**
**Cawn eto gwrdd â'n gilydd.**
**Dy dad, Dafydd, ar ran y teulu oll**

## RHODDION

£20: Er cof am Mrs Jean Davies, Rhyd y Delyn, Llanrug.

Er cof am Geraint Morris gan y teulu.


£15: Er cof am Mrs Persis James gan Rhiannon a'r teulu.

£10: Mrs B. Griffiths, 5 Maes Gwylfa, Deiniolen; Mrs Mair Williams, Elidir View, Cwm-y-glo; John ac Irene Roberts, Pant Teg, Waunfawr; Mrs Annie Wilson Evans (Nan Nan), Llanberis; Mrs Nancy Jones, Bryn Bella, Stryd Newton, Llanberis; Mrs Kathleen Williams, 1 Glanrafon, Llanberis; Mrs Delyth Hughes,6 Fron Goch, Llanberis. Ernie Roberts, 31 Bryn Castell, Conwy.

£5: Ieuan a Gwyneth Williams, Llain yr Ardd, Bethel; Brian Sharpe, Ael y Bryn, Bethel; Teulu Dolydd, Stad Tŷ Hen, Waunfawr.

## Cefnogwch ein hysbysebwyr


Pryd i Bawb
Arlwyo at bob achlysur yn unrhyw leoliad
Bwffe blasus o safon




• Priodas •
Cyfarfodydd busnes
• Bedydd/Parti/Te angladd
• Basged Picnic
• Bwyd yn unig neu gwasanaeth llawn

Cerid Mackinnon
Ffôn: 01286 673190
Symudol: 07774 925502


### Aelod o'r teulu neu ffrind wedi gadael yr ardal?

Beth am i ni anfon copi o'r Eco iddynt bob mis
Gallwn anfon copiau drwy'r post neu dros y we.
Cost anfon drwy'r post am flwyddyn - o fewn Prydain: £13.50
- gwledydd Ewrop £33.50 - gwledydd eraill £42.50
Cost anfon dros y we am flwyddyn - £5.50
Cysylltwch ag Olwen Hughes ar 01286-674839 neu olwenwaen@yahoo.co.uk




## NEVILLE

Ganwyd Neville yn Snowdon View, Llanberis, yn ail o bump o blant y diweddar Elwyn ac Elena Foulkes. Cafodd ei addysg elfennol yn Ysgol Dolbadarn ac yna yn yr hen Ysgol Ramadeg ym Mrynrefail. Er yn meddu'r ddawn a'r gallu roedd yn amlwg o'r cychwyn nad oedd ei fryd ar yrfa academaidd a gadawodd yr ysgol ar y cyfle cyntaf ac aeth, fel amryw o'i gyfoedion, i drin y garreg las yn chwarel Dinorwig. Rhaid cofio hefyd nad oedd dim cyfleoedd ar gael yn yr ysgol yng nghanol y ganrif ddiwethaf i ddilyn gyrfa celf a chrefft, ac nid oedd colegau a oedd yn ymddiddori yn ei faes arbennig yn bodoli bryd hynny. Wedi cyfnod o ddwy flynedd gyda'r fyddin yng Ngogledd Affrica dychwelodd i Lanberis ac yn ôl i'r chwarel. Wrth edrych yn ôl mae'n amlwg fod gwaith y chwarel wedi dylanwadu cryn dipyn arno ac fel y gwelwch caiff hyn ei adlewyrchu yn aml yn yr arddangosfa arbennig yma. Mae'r arddangosfa yn cynnwys rhan fechan o gasgliad helaeth o luniau a phob un ohonynt wedi ei arwyddo a'i ddyddio, ffaith sy'n ychwanegu at arbenigedd gwaith Neville. Ymledai doniau Neville i faes barddoniaeth yn ogystal: cyfansoddodd nifer o gerddi grymus sy'n ymwneud â'i hiraeth am y chwarel a'r gymdeithas a oedd yn rhan mor annatod ohoni.
Roedd yn hoff iawn o'i amgylchedd ac roedd treulio noson allan o amgylch tân coed yn y goedwig yn apelio yn arw ato ac yn ysbarduno'r dychymyg.




## J. NEVILLE FOULKES

Ar un olwg, gwelir yma artist a ddechreuodd ddysgu ei gelfyddyd a'i grefft fel llawer i un arall drwy gopïo ac o lyfrau. Ond o ail edrych ar rai o'r lluniau, gwelir fod yma artist sensitif a ddatblygodd i fynegi ei ofidiau a'i obeithion mewn ffordd arbennig. Yn sicr, nid artist amaturaidd sy'n peintio blodau a thirluniau sentimental neis neis sydyn yr arddangosfa hon, rwy'n falch o ddweud.
Gwelir peintiadau o chwarelwyr, gwelir un peintiad mawr o wynebau chwarelwyr, ofnus yr olwg, yn sefyllian, yn edrych yn uniongyrchol arnom, fel pe baent yn aros i glywed am y gwaethaf a allai ddigwydd yn y chwarel - y cyfan yn un patrwm clos o chwarelwyr, sy'n creu awyrgylch gref mewn llinellau cryf a thonau o frown. Gwelir llun arall o bennau, un yn ymddangos yn ddrwgdybus, un yn dal ei ddwylo i fyny mewn ofn neu banig, un arall â rhyw hanner gwên - i gyd yn syllu i gyfeiriadau gwahanol. Gwelir darlun arall o bedwar chwarelwr, eto yn sefyllian, yn syllu, un gyda hanner gwên - darlun sydd gydag awyrgylch gref iddo.
Yn rhyfeddol iawn, gwelir categori arall o luniau gan Neville Foulkes, lluniau pastel gydag awyrgylch gref a rhamantaidd, megis person yn cerdded i olau'r lleuad, a chreigiau cryf rhythmig yn gefndir. Gwelir llun arall o lyn mewn awyrgylch golau lleuad. Gwelir rhai lluniau sy'n llawer mwy cyffrous, megis llongau hwyliau mewn storm ar y môr, sef patrymau o donnau a chymylau rhythmig cryf mewn lliwiau hudol. A sôn am hudol rwydd, ceir ambell i freuddwyd neu chwedl, megis bugail yn gweld crochan hudolus yn llawn o drysorau euraidd, a merch hardd ifanc yn ymddangos mewn gwyn.
Gallasai rhai o'r lluniau diwethaf yma a'r rhai du a gwyn fod yn eglur luniau addas ar gyfer storiau mewn llyfrau. Hefyd, gwelir cerfluniau rhyfeddol, wedi eu cerfio o bennau tebyg i'r pennau y cerflunwyd y crocodeil allan o hen drawst bwthyn mynyddig 'Pyllau Dŵr, Llanberis'. Mae'r dyddiad gwreiddiol, 1767, wedi ei naddu tu cefn i'r cerflun.
Mae yna beintiadau o chwarelwyr, rhai yn drist , rhai yn hudolus ac un ffigwr yn creu naws o unigrwydd.
Pleser yw dethol ac arddangos celfyddyd Neville Foulkes fel y gall y gymdeithas gyfan yn Llanberis a'r cylch ei gwerthfawrogi a'i mwynhau, ac wrth gwrs, fel teyrnged i Neville.
John Meirion Morris



Eco Chwefror 2013.indd 3 28/01/2013 20:39

## Neges gan y Tîm Plismona Lleol

Mae rhai materion wedi codi yr hoffem dynnu sylw trigolion lleol atynt.
Mae cynnydd wedi bod yn nifer yr achosion o ddwyn o siediau ac adeiladau allanol yng nghefn gwlad lle mae tŵls trydan a phetrol wedi cael eu dwyn. Cynghorir trigolion i feddwl mwy am ddiogelwch drwy gloi eu hadeiladau, rhoi marciau diogelwch ar eu heiddo a nodi rhifau cyfresol eu heitemau os yn bosibl.
Mae baw ci hefyd wedi'i nodi fel problem o amgylch y strydoedd ac mae'r heddlu a'r awdurdod lleol yn atgoffa perchnogion cŵn eu bod yn wynebu dirwy os na fyddant yn clirio ar ôl eu hanifail anwes. Nid yw perchennog sy'n honni nad oeddent yn ymwybodol bod eu ci wedi baeddu yn cyfri fel esgus nac fel amddiffyniad yn erbyn y trosedd.
Hefyd, mae cynnydd wedi'i weld yn y nifer o feiciau modur sy'n mynd oddi ar y ffordd yn ardaloedd Cefn Du a Moel Eilio rhwng Ceunant a Llanberis. Rydym yn cydweithio â Pharc Cenedlaethol Eryri a hoffem gasglu tystiolaeth mewn perthynas â'r achosion hyn. Riportiwch unrhyw achosion i'r Heddlu drwy ffonio 101.
Os oes gennych unrhyw wybodaeth am yr uchod neu os hoffech unrhyw gyngor pellach, cysylltwch ag un ai Val neu Michael gan ddefnyddio'r manylion isod.
Yn gywir
Michael Couling. SCCH 2856, Gorsaf Heddlu Llanberis
Ffôn – 07854332216
Ebost – michael.couling@nthwales.pnn.police.uk

Val Worth. SCCH 2997, Gorsaf Heddlu Llanberis
Ffôn – 07880156974
Ebost – valerie.worth@nthwales.pnn.police.uk

## Ymchwilydd angen gwybodaeth

Annwyl Ddarllenwyr,
DONALD PRYCE JONES
Rwyf am ofyn trwy gyfrwng Eco'r Wyddfa am sylw a chymorth eich darllenwyr yn fy ymchwil yn olrhain bywyd a gyrfa broffesiynol Donald Pryce Jones, a fu fyw rhwng y blynyddoedd tua 1910 tan 1975. Cyfarfum ag ef ddwywaith, yn 1969 a 1971, yn ei gartref ymddeol ger dref Moorfield yn nhalaith West Virginia ar ol iddo dreulio gyrfa arbennig o ddiddorol a mentrus yn Ewrop ar ran yr Unol Daleithau.
Yn ol Donald, roedd wedi ei fagu ym Mryn Ellen ar y ffordd i'r de o Gaernarfon tua Waunfawr. Mae staff Archifdy Caernarfon wedi bod yn gymwynasgar iawn yn fy helpu i olrhain hanes y ty hwnnw. Enw'r deilydd yn ol y Rholiau Pleidlais ym mlynyddoedd cynnar y ganrif ddiwethaf oedd Sarah Owen (neu yn ol rhol 1930 Owens ), ac 'rwyf am ddarganfod os ai Nain Donald Pryce Jones oedd honno.
Yn ol Dona ld ei hun, cafodd ei gipio o gartref ei rieni yn Wisconsin gan ei Nain, gan nad oedd hi eisiau ei wyr i'w fagu "mewn gwlad ddiarth a diwar".
Ar ol gyrfa, ac mae'n weddol sicr un amlwg a llwyddiannus, yng Ngwasanaeth Cudd yr UD (y CIA) cododd i statws a rheng uchel iawn, o leiaf yn ol beth a ddywedodd wrthyf flynyddoedd yn ol. Rwyf yn archwilio mewn llawer archif a llyfrgell yn yr UD, Ewrop ac Israel am fanylion ei fywyd anturus.
Os oes gan eich darllenwyr wybodaeth am Bryn Ellen, ac yn arbennig am Donald Pryce Jones ei hun, a fuasant cystal a 'sgwennu ataf i nantlle@netvigator.com neu drwy anfon llythyr at:
Y Bwthyn 63 Church Lane Girton Caergrawnt CB3 OJP. Byddwn yn ddiolchgar iawn am unrhyw gymorth, gysylltiad, awgrym neu gofiant personol amdano.

Yr eiddoch yn gywir
Glyn AlbanRoberts

Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn
Wedi torri darn o ddodrefn?
Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?
Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor
Dennis & Julie Jones
01286 650255

## THEATR BARA CAWS

yn cyflwyno
Ar daith: Mawrth 5ed – Ebrill 6, 2013

## HWYLIAU'N CODI

Actorion: Gwion Aled, Rhian Blythe, Mirain Haf, Carwyn Llŷr, Rhodri Siôn
Cyfarwyddwr: Betsan Llwyd

Yn ôl a ni mewn amser i Gyfnod Teyrnasiad yr hen Gwîn Victoria, ac ymunwch â John, Robert, Richard Davies (a'i wraig Ann) - perchnogion cwmni llongau llewyrchus o Fôn - ynghyd â llu o gymeriadau isel ac amheus eraill! Roedd y cwmni'n gyfrifol am gludo cannoedd o Gymry, glo a nwyddau o bob math o Lerpwl a Llundain i bedwar ban byd, ac yn dychwelyd gyda sawl cargo - yn fwy penodol y giwano drewllyd o ynysoedd anghysbell arfordir Gorllewin De America.
Ond roedd ochr arall i'r geiniog. Roedd y colledion ymysg y llongau yn uchel, sawl un ohonynt yn diflannu am byth, a nifer o'r morwyr yn cael eu sgubo oddi ar y dec neu'n syrthio o'r rigin mewn tywydd enbyd.
UN O GYNYRCHIADAU CYNTAF CWMNI THEATR BARA CAWS ERIOED!
Rifiw Gymunedol o'r hen deip ac yn addas i'r teulu i gyd

Perfformiadau lleol
5 Mawrth: Canolfan Gymunedol Porthaethwy am 7.30
6 Mawrth: Ysgol Dyffryn Ogwen Bethesda
25 Mawrth: Neuadd Goffa Felinheli

---

PO Box 320
Prestatyn LL18 9GR
(10745) 888161 neu 07714069128
edwards@bhf.org.uk

Annwyl Ddarllenwyr
British Heart Foundation
Rwyf yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi am apêl newydd British Heart Foundation (BHF) Cymru. Enw'r apêl yw Does Dim Amser i Aros – Achub Bywydau yng Nghymru.
Byddwn yn cydweithio â Gwasanaethau Ambiwlans Cymru am ddwy flynedd ar y prosiect a'i nod fydd ein helpu i achub bywydau ledled Cymru. Mae llawer o bobl Cymru'n marw'n ddiangen o ataliad y galon (cardiac arrest). Ar hyn o bryd, o'r bobl sy'n cael ataliad y galon yn rhywle heblaw'r ysbyty, dim ond tua 10 y cant sy'n byw. Mae'r ystadegau'n dangos bod tua 8,000 o bobl yng Nghymru yn cael ataliad y galon yn rhywle heblaw ysbyty bob blwyddyn. Heb gamau i'w hadfywio (all gynnwys diffibrilio) mi fyddan nhw'n siŵr o farw. Mae angen diffibrilio'n sydyn iawn. Po gyntaf y bydd y claf yn cael triniaeth adfywio fel CPR ar y frest, ac wedyn sioc gan beiriant diffibrilio, mwya tebygol y bydd o ddod trwyddi.
Rwyf i yn un i dîm o gydweithwyr a fydd yn hapus i ddod at fudiadau lleol i sôn am ein gwaith yn lleol a rhanbarthol ac, yn arbennig, am ein prosiect newydd yng Nghymru a lansiwyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni.
Croeso i unrhyw un sydd a diddordeb ddod i gysylltiad â mi
Sion Owain Edwards
Rheolwr Gwirfoddolwyr sy'n Codi Arian

---

## Y Chwedegau – Oeddech chi yno?

Gan fod nifer o ysgolion cynradd yn astudio hanes y 1960au mae Gwasanaeth Archifau Cyngor Gwynedd yn paratoi casgliad o adnoddau am y cyfnod. Un rhan o'r gwaith fydd cofnodi atgofion pobl. Pa effaith gafodd y chwedegau arnoch chi? Oeddech chi'n rhan o fwrlwm protestiadau'r cyfnod? Gafodd Bwyell Beeching effaith ar eich ardal chi? Fuoch chi ym Mangor yn gweld y Beatles? Yn ogystal â manylu ar ddigwyddiadau penodol, y bwriad yw canolbwyntio ar fywyd pob dydd yn lleol yng Ngwynedd yn ystod y chwedegau. Bydd hyn yn cynnwys sylwi ar agweddau megis tai y cyfnod, newidiadau yn nulliau ffermio, cludiant, ysgolion, ffasiwn, siopa ac arferion amser hamdden, yn chwaraeon ac adloniant torfol.
A fyddech chi'n fodlon adrodd eich atgofion ar ffilm er mwyn rhoi'r hanes ar gof a chadw? Cysylltwch â John Dilwyn Williams, Archifdy Gwynedd ar 01286 679091 neu johndilwynwilliams@gwynedd.gov.uk

**Llongyfarchiadau** Hoffai teulu Gwawr Hughes Owen – wyres Eirlys Hughes, 42 Bro Rhos, ei llongyfarch ar ei llwyddiant yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen yn ddiweddar. Daeth Gwawr yn gyntaf am ganu unawd, ac yn ail ar yr unawd cerdd dant. Dai iawn chdi a dalia ati.

**Merched y Wawr** Yng nghyfarfod mis Ionawr o'r gangen, croesawyd yr aelodau gan y llywydd, Glenys, a dymunodd flwyddyn newydd dda i bawb. Llongyfarchwyd Mair Price am ddod yn nain unwaith eto.

Y gŵr gwadd oedd Mr. Maldwyn Thomas, a rhoddodd sgwrs hynod ddiddorol ar "Y Cartref Cymreig". Diolchwyd yn gynnes iawn iddo gan Mair Read. Gwnaethpwyd y te gan Sheila a Nora, a hwy hefyd a roddodd y wobr ar gyfer y raffl a enillwyd y gan Bet.

**Cymdeithas Lenyddol** Diddorol iawn oedd cynnwys y noson gyntaf eleni o'r Gymdeithas, sef 'Mae gen i drysor'. Yn dilyn croesawu pawb gan y Llywydd Dr J. Elwyn Hughes roedd y noson yng ngofal pump o'r aelodau, pob un yn cyflwyno hanesion oedd yn ymwneud â 'thrysor' oedd ganddynt. Bu'r pump yn siarad yn ddifyr iawn am amrywiol wrthrychau. Roedd Anita Owen wedi dod â chasgliad o wrachod a darllenodd stori am wrachod, Glenys Griffiths yna yn dangos cwpan arian a enillodd busnes ei thad mewn cystadleuaeth pobi bara ym 1935. Hel atgofion oedd Geraint Elis gyda Llyfr Lloffion yn dyddio'n ôl nifer o flynyddoedd a llofnod ambell i chwaraewr pêl-droed ymysg pobl eraill. Roedd y Parchedig Marcus Wyn Robinson wedi dod â nifer o bethau unigryw a gyflwynwyd iddo am ei wasanaeth fel Gweinidog yn dilyn amrywiol sefyllfaoedd dros y byd. Dangosodd Elwyn Hughes ddarn o lechen wedi ei gerfio i siap chwiban, ac yn naturiol ddigon roedd ganddo lyfr neu ddau hefyd. Roedd pawb wedi mwynhau'r noson yn fawr iawn a chafwyd paned i gloi dan ofal Ellen Ellis, Alys Jones a Nora Parry. Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Chwefror 19, yn Festri Cysegr yng nghwmni y Prifardd Ieuan Wyn, Bethesda a noddir y noson gan Llenyddiaeth Cymru.

**Dymuna** Ieuan a Gwyneth Williams, Llain yr Ardd, ddiolch yn ddiffuant i'w teulu a'u ffrindiau am yr holl gardiau, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur dathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar. Hefyd dymuna Gwyneth ddiolch eto i'w theulu a'i ffrindiau am y cardiau, dymuniadau da a'r anrhegion a dderbyniodd pan yn dathlu pen-blwydd arbennig rhai wythnosau'n gynt.

**Diolch** Mae'r unigolion a fanteisiodd ar garedigrwydd y Cynghorydd Siân Jones yn galw arnynt i holi a oeddynt angen unrhyw gymorth yn ystod cyfnod yr eira, yn diolch o galon iddo am ei gefnogaeth.

**Llongyfarchiadau** i Rhys Lloyd, mab Richard a Mary, Y Ddol, ar ei ddyweddiad efo Menna, merch Ieuan a Blodeuwedd Wyn, Bethesda.

**Cronfa Mynwent Eglwys Llanddeiniolen** Carem ddiolch i'r canlynol am eu cyfraniad tuag at gostau cynnal a chadw Mynwent St Deiniol Llanddeiniolen am y flwyddyn 2012:

£30: Margaret Pritchard, Jennifer Roberts a Valerie Owen; £100: Mrs C.A. Lowe, Henryd; £50: Priscilla Ann Williams, Cilgwyn; £40: Mrs Ruby Harrison, Bakhita; £210: Er cof am Cledwyn Williams, Llanrug; £25: Glyn Richards, Deiniolen; £20: Alan a Brenda Jones (Fachell); £10: Mrs Eiriona Williams, 7 Bro Rhos; £10: Dilys Parry, Bryntirion, Rhiwlas; £20: E.R. A J.W. Jones, 7 Dob, Tregarth; £100: Gareth Jones a Dylan Edwards, 3 Bro Deiniol, Deiniolen; £10: Mr C. Thomas, 68 Stryd Bangor, Felinheli; £10: Mrs Marjory Roberts, Tŷ Newydd; £20: Mrs Gwyneth Hughes, 36 Bro Rhos; £20: Mr Albert Hughes, 34 Bro Rhos; £20: Mr a Mrs Brian Sharpe, Ael y Bryn; £20: Mrs M.B. Price, 14 Bryn Moelyn, Llanrug; £10: Mr a Mrs H.P. Hughes, 11 Stad Eryri; £10: Mrs Ann Hughes, Llanbedrgoch; £50: Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Brynrefail.

Mae costau cynnal a chadw Mynwent y Plwyf yn codi yn flynyddol ac rydym yn gwbl ddibynnol ar gyfraniadau fel yr uchod. Derbynnir yn ddiolchgar roddion tuag at y gost uchod trwy law y Trysorydd: Mr Brian Sharpe, Ael y Bryn, Bethel, Caernarfon Ll55 3AA. Sieciau yn daladwy i 'Cronfa Mynwent Llanddeiniolen' os gwelwch yn dda.

**Clwb Bro Bethel** Diolch i bawb am gasglu talebau WISH y Daily Post a'u hanfon i'r Ysgrifennydd er budd y Clwb. Braf yw cael datgan bod y Clwb wedi derbyn £189.47c yn dilyn yr ymgyrch. Bydd y cyfarfod nesaf brynhawn Mawrth, Chwefror 4ydd am 2.00 yn Festri Cysegr yng nghwmni y Canon Idris Thomas, Deiniolen.



## Aled a'i waith

Mae Aled Griffiths, gynt o Lwyn Eithin, Bethel, yn gweithio yn nhalaith British Columbia, Canada, ers pedair blynedd fel Peiriannydd Sifil. Fe anfonodd gyfarchion i'r Eco yn Ionawr 2010, a dyma fo rŵan yn anfon ychydig o wybodaeth am y gwaith a'r profiad mae wedi ei gael yno.

Cyfarchion eto o Vancouver:

Cefais gyfle yn Ionawr 2009 i gael gwaith gyda chwmni Hatch Mott MacDonald yn Canada. Roedd y Cwmni wedi derbyn contract gwerth $3.3 biliwn CAD $, i uwchraddio trafnidiaeth lleol a gwella a chyflymu traffig ar Priffordd 1 Traws Canada sef y Port Mann Highway. Mae traffig cyson ar y ffordd ac yn cario tua 127,000 o gerbydau yn ddyddiol i mewn ac allan o Vancouver, a'r nod yw arbed tua awr o amser teithio bob dydd i'r defnyddwyr. Mae'r prosiect i gyd yn ymestyn dros 37 cilometr (22.29 Milltir), a phan fydd y prosiect wedi ei gwblhau bydd y bont newydd y lletaf yn y byd, gyda 5 lôn bob ffordd ac yn disodli yr hen bont Port Mann.

Rwyf yn ystyried fy hun yn ffodus iawn fel Rheolwr Cynllunio (Design Manager) i gael y profiad o weithio ar brosiect mor fawr, ac mae'r tîm rwy'n rhan ohono wedi cynllunio dros 50 o bontydd a lonydd sy'n arwain i mewn ac allan o'r brif bont. Amcan gyfrifid ar y dechrau y byddai'r cynllun yn darparu gwaith i tua 8,000 o bobol ac yn gorffen yn y flwyddyn 2013. Mae'n edrych yn debyg y bydd popeth yn gorffen ar amser.

Cymhlethdod oedd yn perthyn i'r cynllun oedd ceisio cadw defnydd cyson o'r hen bont tra yn adeiladu y bont newydd, ac mae'r contractwyr wedi gweithio ddydd a nos yn ddi-dor ers cychwyn ar y prosiect yn 2009. Bydd darpariaeth hefyd i gerddwyr ac i feicwyr ar y bont. Mae'r bont newydd wedi agor ers tua chwech wythnos gyda phedair lôn bob ffordd yn weithredol ar hyn o bryd, yna, tynnir i lawr yr hen bont i wneud lle i ddwy lôn arall bob ffordd. Pan ddigwydd hyn, hon fydd y bont letaf yn y byd. Mae'r Guinness Book of Records wedi cydnabod hyn ar Fedi 12, 2012 a bydd yr hanes yn y llyfr y flwyddyn nesaf.

Nid gwaith yn unig sy'n mynd â'm bryd yma yn Vancouver gan fod gymaint o gyfleon ar gael i gymeryd rhan mewn nifer fawr o wahanol weithgareddau awyr agored. Rwy'n hoff iawn o fynd i fyny i Fynydd Whistler sy'n lle ardderchog i eira fyrddio ac yn ddiweddar rwyf wedi cwblhau dwy driathlon.

Ymddengys i mi y gall 2013 fod yn flwyddyn arall ddiddorol gyda'r cynllun presennol yn cael ei gwblhau mewn ychydig fisoedd. Gobeithio felly y caf gychwyn ar brosiect newydd yn ystod y flwyddyn.

## MERCHED Y WAWR

Cynhaliwyd cinio Nadolig y gangen nos Fercher 12 Rhagfyr yn Yr Hen Lechen, Y Felinheli. Estynnwyd croeso i bawb gan y llywydd, Glenys Griffiths, a oedd hefyd wedi trefnu cwis i'n diddanu ar ôl y bwyd. Tîm Sharon oedd yn fuddugol, ac enillwyr y raffl oedd Gwyneth Jones, Mair Williams, a Mair Price. Atgoffir pawb am yr ymgyrch gasglu bagiau (unrhyw gyflwr), sydd gan y mudiad eleni, ac i ddod â hwy i'r cyfarfod yn mis Ionawr.



Eco Chwefror 2013.indd 5 28/01/2013 20:39

# Eisteddfod Bethel 2012

## Noson Ddawnsio – 13.11.2012

Cynhaliwyd noson o ddawnsio llwyddiannus iawn yn y Neuadd Goffa ym Methel. Y beirniaid oedd Karen Jones, Ilid a Sasha. Arweiniwyd y noson gan Rhian Jones (Llywydd y Pwyllgor) a Lowri Ann. Diolch arbennig i'r gynulleidfa frwdfrydig oedd yno yn cefnogi, i'r dawnswyr am eu perfformiadau graenus ac i'r hyfforddwyr am eu hamser.

### Enillwyr y tlysau

Tlws Teulu Treflys a thlws bychan i'w chadw am byth wedi ei rhoi gan Enid a Meurig Huws – Cara Jones
Tlws Teulu Cefn Ffrwd a thlws bychan i'w chadw am byth wedi ei rhoi gan Rhys a Sian Harris – Elan Jones
Cystadlaethau Celf a Chrefft
Y beirniad eleni oedd Mrs Sian Davies, Bethel. Diolch i'r Cylch Meithrin ac i'r Ysgol Gynradd am sicrhau bod pob plentyn yn cael cystadlu. Roedd gwaith y plant yn werth ei weld ar waliau'r Neuadd!
Tlws Celf Gwaith Cynradd (wedi ei wneud yn yr ysgol): Cadi Roberts
Tlws Celf Gwaith Cynradd (wedi ei wneud yn y cartref): Thomos Morris
Tlws Celf Gwaith Uwchradd (wedi ei wneud yn y cartref): Hari Ifans

## Eisteddfod Bethel – Canlyniadau Cystadlaethau llwyfan

Cynhaliwyd yr Eisteddfod Ddydd Sadwrn, Tachwedd y 17eg 2012. Y beirniaid oedd Lois Eifion (Cerdd), Carwyn John (Llefaru) a Hefin Evans (Offerynnau). Yr arweinyddion oedd Manon Gwynedd ,Siôn Elwyn, Anita Owen a Mair Read. Y cyfeilyddion oedd Manon Gwynedd, Helen Morris, Gethin Griffiths, Siôn Elwyn, Manon Elwyn, Bronwen Price a Deilwen Hughes. Alaw, Lowri ac Elliw oedd yn dosbarthu'r rhubanau. Bu aelodau'r Pwyllgor a chyfeillion yr Eisteddfod yn brysur iawn yn stiwardio a threfnu raffl gyda nifer o wobrwyau yn rhoddedig gan gyfeillion a busnesau lleol. Diolch yn fawr.

## CYFARFOD Y PRYNHAWN

### Llefaru

Cylch Meithrin: 1. Pawb yn cyd lefaru Gee Ceffyl Bach. Dosbarth Meithrin: 1. Erin, 2. Llyr, 3. Sion. Blwyddyn Derbyn: 1. Eban, 2. Alaw 3.Rhodri. Blwyddyn 1: 1. Elis, 2. Owain, 3. Iago. Blwyddyn 2: 1. Tomos, 2. Zara, 3. Mari. Blwyddyn 3 a 4: 1. Dylan, 2. Cai ac Elis. Parti Llefaru Blwyddyn 1,2 a 3: 1. Rapsgaliwns Bethel, 2. Parti Fi, Fo a Hi.
Cerdd
Cylch Meithrin: 1.Pawb yn cyd-ganu Dwy Droed yn Dawnsio. Dosbarth Meithrin: 1. Anna, 2. Erin a Llyr, 3. Elen. Blwyddyn Derbyn: 1. Alaw, 2. Kia Jo, 3. Ela ac Iwan. Blwyddyn 1: 1. Iago, 2.Morgan ac Owain, 3. Elis. Blwyddyn 2: 1. Zara, 2. Beca, 3. Tomos a Bryn. Blwyddyn 3 a 4: 1. Rhys, 2. Millie, 3. Ben. Unawd Cerdd Dant Blwyddyn 1-6: 1. Heledd, 2. Gwenllian. Parti Canu Blwyddyn 1,2 a 3: 1. Genod 999, 2. Hogia 999. Unawd Alaw Werin Blwyddyn 1-6: 1. Heledd. Unawd piano Blwyddyn 4,5 a 6: 1. Celt, 2. Bedwyr, 3. Lowri ac Elen. Unawd Offeryn Cynradd: 1. Elen, 2. Ywain, 3. Josie. Parti Cerdd-dant Cynradd: 1. Parti Wa.

## CYFARFOD YR HWYR

### Llefaru

Blwyddyn 5 a 6: 1. Gwenllian 2. Celt, 3. Heledd. Blwyddyn 7,8 a 9: 1. Gwion Wyn, 2. Gwion John. Blwyddyn 10-13: 1. Lois Jones. Parti Llefaru Blwyddyn 4,5 a 6: 1. Parti'r Gogs, 2.Parti Selsig. Parti Llefaru Uwchradd: 1.Celebs Bethel, 2. Rebals Wicend. Darllen ar y Pryd Blwyddyn 7-13: 1. Rhydian, 2. Caio, 3. Gwion John. Sgets (agored): 1. Genod y Tils, 2. Sgets y Neuadd.
Cerdd
Unawd Blwyddyn 4,5 a 6: 1. Gwenllian, 2. Heledd, 3. Ywain. Parti Canu Blwyddyn 4,5 a 6: 1. Parti Tylluanod. Unawd Piano Blwyddyn 7,8 a 9: 1. Gwion Wyn, 2. Owain, 3. Elen. Unawd Blwyddyn 7,8 a 9: 1. Gwion John, 2. Gwion Wyn ac Emma, 3. Sion Alun. Deuawd Cynradd ac Uwchradd: 1. Gwenllian a Heledd, 2.Lois ac Elan. Offeryn heblaw Piano Blwyddyn 7,8 a 9: 1. Elen, 2. Owain. Unawd Alaw Werin Blwyddyn 7-13: 1. Ilid, 2. Gwion Wyn. Unawd Blwyddyn 10-13: 1. Eiry, 2. Ilid a Lowri, 3. Sion Emlyn. Unawd piano Blwyddyn 10-13: 1. Rhydian. Unawd offeryn heblaw piano Blwyddyn 10-13: 1. Alaw Prys. Cân Gyfoes: 1. Eiry, 2. Y Rastas, 3. Erwan a Gwion Wyn. Parti Canu Uwchradd: 1. Parti Canu Manon a Deilwen.

## ENILLWYR Y TLYSAU

Cwpan Arian (llefaru Cynradd): Gwenllian Griffiths
Cwpan Konica (llefaru Uwchradd): Gwion Wyn
Tlws Coffa Siân Robinson (darllen ar y pryd): Rhydian Price
Tlws Parc y Wern (Parti llefaru Cynradd): Rapsgaliwns Bethel
Tlws Coffa Goronwy Jones (lleisiol Cynradd): Heledd Prys
Tlws Coffa W.G. Ellis (piano Cynradd): Celt Moss
Tarian Ael y Bryn (offerynnol Cynradd): Elen Thomas
Tlws Coffa Mrs Joan Foulkes (lleisiol Uwchradd): Eiry Price
Tlws Coffa John M. Williams: (piano Uwchradd): Rhydian Price
Tlws Teulu Penparc (offerynnol Uwchradd): Alaw Prys
Tlws Llwyn Eithin (Parti Canu Cynradd): Parti Tylluanod
Tlws Coffa Annie E. Williams (Parti Llefaru Uwchradd): Celebs Bethel
Cwpan Teulu Llain yr Ardd (Rhyddiaith Agored): Manon Elwyn
Tlysau bach i'w cadw am byth yn rhoddedig gan Siencyn a Glenys Griffiths, Wil a Nora Parry, Brian ac Eirlys Sharpe, Elwyn a Gwyneth Jones, Rita Williams, Menna Williams, Alun a Sheila Foulkes, Huw a Nan Jones, Gareth a Rhian Hughes, Margaret a Phillip Williams, Arwel a Iola Jones, Deilwen ac Elwyn Hughes.

## SEREMONI'R CADERIO

Prif Lenor Cynradd oedd Gwenllian Dauncey Griffiths a'r Prif Lenor Uwchradd oedd Richard Efans. Y llenor cynradd yn derbyn Tlws y Gymdeithas Lenyddol a thlws i'w chadw am byth yn rhoddedig gan Maldwyn John a Manon Gwynedd. Y llenor Uwchradd yn derbyn Tlws Merched y Wawr er cof am Miss Maggie Owen, a thlws i'w chadw am byth yn rhoddedig gan Gareth a Manon Griffiths.
Yr oedd yr Orsedd o dan ofal medrus Mrs Rita Williams. Owain Jones ac Ywain Emrys oedd Ceidwaid y Cledd, Alaw Prys a Caio Hywel yn chwythu'r Cyrn Gwlad, Eiry Price yn canu Cân y Cadeirio a Manon Gwynedd yn cyfeilio. Cyrchwyd y llenorion i'r llwyfan gan Osian a Kyle gyda Erwan a Iolo yn cyfarch y llenorion gyda phenillion wedi eu cyfansoddi gan y beirniad Llên, Dr Angharad Price.
Diolch i Athrawon a staff yr ysgol gynradd am eu cefnogaeth gyda'r cystadlaethau llên, celf a chrefft; i Adran Gymraeg Ysgol Brynrefail am eu cefnogaeth gyda'r gwaith llên Uwchradd; i'r holl wirfoddolwyr am ddod ymlaen i roi eu hamser prin i hyfforddi, ac i rieni am gyrchu eu plant yn ôl ac ymlaen i'r ymarferion. Diolch hefyd i swyddogion y Pwyllgor am sicrhau bod yr Eisteddfod wedi rhedeg yn esmwyth. Diolch i bawb am gefnogi'r Eisteddfod.


**CEIR CYMRU**
**BETHEL (0148) 670 451**
**(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion)**
A ydych yn ystyried newid eich car o fewn y flwyddyn nesaf? Ystyriwch y ffeithiau hyn.
1. Mae tri-chwarter y ceir newydd a gaiff eu gwerthu ym Mhrydain yn colli rhwng 25% i 30% o'u gwerth erbyn eu bod yn naw mis oed
2. Mae cwmnïau mawr a chwmnïau lesio a llogi yn derbyn oddeutu 25% o ddiscownt wrth brynu eu ceir ac felly mae'r cerbydau hyn yn dod ar y farchnad am brisiau isel ac fel arfer mewn cyflwr rhagorol wedi cael eu cynnal a'u cadw heb ystyried costau
3. Mae gennym brofiad o 40 mlynedd yn prynu a gwerthu ceir ail-law ac rydym ar gyfartaledd yn trafeilio mil o filltiroedd bob wythnos yn chwilio am y bargeinion gorau er mwyn eu cynnig i bobl Gwynedd ar elw sydd fel arfer o gwmpas 5% o'r pris



Cofiwch ddefnyddio
**SWYDDFA POST BETHEL**
(01248) 670261
ORIAU AGOR
5.30am-7.30pm (Llun–Sadwrn)
5.30am-3pm(Sul)
Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**
Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.
**A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)**





**Problem gyda'ch cyfrifiadur?**
Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â Gomer Roberts
Ffôn : 01286 870462
Symudol : 07962 712368
Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!




Eco Chwefror 2013.indd 6 28/01/2013 20:39

## *Parhad* BETHEL



### DRWY'R MWG A THÂN

Cafwyd oedfa Fore Nadolig effeithiol iawn yng Nghapel y Cysegr. I arwain y gynulleidfa at fwrdd y Cymun dewisodd y gweinidog, y Parch Marcus Robinson, y thema Anrhegion Annisgwyl. Cyfeiriodd at anrheg o win blasus yr oedd wedi ei dderbyn gan gwpwl priod yr oedd wedi eu helpu drwy 'gyfnod tywyll'. Soniodd am enedigaeth y Crist annisgwyl, ac yna dadorchuddiodd anrheg annisgwyl oedd yn llechu o dan liain elfennau'r Cymun.

Yno roedd dwy gostrel gwin Cymun. Roedd y gweinidog wedi derbyn y costreli fel cymun-rodd yn ddiweddar, a datgelodd i'r gynulleidfa hanes y costreli.

Roedd y costreli wedi eu cyflwyno i Gapel Moriah, Caernarfon yn 1876 i ddathlu adeiladu y capel gwreiddiol yn 50 oed. Wedi ei sgythru ar y costreli fe nodir mae'r cymwynaswr oedd Lewis Lewis, Quellyn, Caernarvon. (Cwellyn, Caernarfon mae'n siŵr.) Cofiwn i Gapel Moriah losgi'n ulw yn 1976, gan mlynedd wedi cyflwyno'r costreli. Darganfyddwyd y costreli ymysg y lludw. Pan dderbyniodd Marcus y rhodd roedd ôl dylanwad y mwg arnynt ond erbyn hyn mae sglein rhyfeddol arnynt. Yn sicr roedd sglein ar yr anerchiad ac yn amlygu gwir rodd y Nadolig.

Er i'r tân ddifrodi'r tir, - yma rhoi
 mae Moria'n gywir;
a rhoi blas gwyrth Gwas y Gwir
 ar Ŵyl, hen win gostrelir.

## CAEATHRO

**Newyddion y Capel** Bydd y Gwasanaethau canlynol yn cael eu cynnal yn ystod mis Chwefror:

Sul 3 Chwefror, 2:00 - Y Gweinidog

Sul 17 Chwefror, 2:00 - Parch Trefor Jones.

Croeso cynnes i bawb.

**Ymgyrch Guatemala** Braf yw nodi bod Capel Caeathro wedi casglu £520 tuag at Gronfa Guatemala.

Diolch i bawb fu'n cyfrannu drwy y casgliadau a thaith noddedig. Dan ofal y gweinidog, Y Parch Marcus Robinson, cynhaliwyd gwasanaeth bendithiol iawn ar Ragfyr 23ain gyda chymorth y plant a'r ieuenctid a ganlyn: Mari, Luned, Elan, Hywel, Betsan, Lowri, Martha, Dafydd, Osian, Gwion, Owain, Hannah, Caio a Celt ynghyd a phedwarawd ieuanc Rhos Bach.

**Tynfa misol** Dyma ganlyniadau mis Rhagfyr 2012: John Jones, Garreg Lwyd: £40 (112); Einir Roberts, 3 Erw Wen: £25 (63); Mark a Linda, Tŷ Newydd: £15 (80); Mike a Mair, 10 Bryn Gof: £5 (52).

**Tynfa Nadolig** Llongyfarchiadau i'r deg canlynol sydd wedi ennill £10 dros gyfnod y Nadolig. Norma Evans, Llecyn Clyd (96), Mirain Owen a Tim Walker (106), Hywel Evans, Garej Gwalia (29), Ellen Burke, Caeathro Bach (24), Cadwaladr Evans, Llecyn Clyd (65), D.J. Roberts, 5 Bryn Teg (51), Einir Roberts, 3 Erw Wen,(63), Jane Lloyd, Tyddyn Cae (40), Derwyn Roberts, Cefn Rhos Isaf (89), Nia Hughes, 10 Rhes Glangwna (66)

**Clwb y Merched** Cyfarchion gorau'r flwyddyn newydd i'r holl aelodau. Dwi'n siŵr ein bod yn edrych ymlaen i ddod at ein gilydd ar nos Iau, Ionawr 31, yng Nghanolfan y Capel, pryd y byddwn yn treulio orig yng nghwmni Mrs. Nan Parry, Caernarfon. Ei thestun difyr fydd 'Hanes Teulu Enlli'. Croeso cynnes i chi ddod i fwynhau, a bydd cyfle i gael sgwrs a chymdeithasu dros baned hefyd.


Gyda 3
Blwyddyn o yswiriant
Blwyddyn o wasanaeth arferol
Blwyddyn o dreth y car
Blwyddyn o wasanaeth achub
Blwyddyn o warant llawn

**Cofiwch chi y tanwydd!**
- Rwan ar gael i ddreifwyr **dros 21 oed!**



PEUGEOT **208** NEWYDD

Mae'r Peugeot 208 newydd rwan a'r gael yma yn Elim Peugeot. Yn ysgafnach a llai ar y tu allan, ond gyda mwy o le tu mewn mae iddo mwy na digon i ddal y llygaid. A gyda gwasanaeth "Just Add Fuel" sydd ar gael gan Peugeot yn unig, y cwbl sydd rhaid chi gofio ydi'r tanwydd!

**Ffoniwch ni heddiw i brofi y Peugeot 208 dros eich hun.**

**MOTION & EMOTION**

PEUGEOT

**ELIM PEUGEOT**

**Parc Bryn Cefni, Llangefni, Ynys Mon Ffon: 01248 750251**

**www.elimpeugeot.co.uk**

Telerau ac amodau llawn ar gael yn y garej neu ar y wefan www.peugeot.co.uk

Y ffigyrau effeithlonrwydd swyddogol mewn milltir y galwyn (l/100km) ac allyriad $CO_2$ (g/km) ar gyfer 208 yw: Urban 78.4 – 34.9 (3.6 – 8.1), Extra Urban 88.2 – 62.8 (3.2 – 4.5), Combined 83.0 – 48.7 (3.4 – 5.8) a $CO_2$ 87 - 135




Eco Chwefror 2013.indd 7 28/01/2013 20:40





**Llongyfarchiadau** i Alis Mair Jones, Rhiw Goch, ar gael ei henwebu gan Glwb Gymnasteg Eryri i dderbyn gwobr am ei hymdrech ac ymroddiad i'r Clwb mewn seremoni wobrwyo arbennig a gynhelir yn Feniw Cymru, Llandudno. Roedd dros gant a hanner o aelodau eraill o glybiau gymnasteg gogledd Cymru yn cael eu gwobrwyo hefyd, a gynhelir ar ddechrau mis Ionawr. Da iawn ti, dal ati, Alis!

**Llongyfarchiadau** i Beca Medi Jones, Rhiw Goch, ar ddod yn drydydd mewn cystadleuaeth deifio Clwb Deifio'r 'Bilidowcars' Bangor, ym mis Rhagfyr. Mae'r Clwb yn cyfarfod bob bore Sadwrn ym mhwll nofio Bangor. Mae croeso i aelodau newydd sydd efo diddordeb ymuno hefyd.

**Newyddion Mae angen mwy o newyddion i law gan fod llawer o weithgareddau a llwyddiannau yn digwydd yn y pentref ac i drigolion y pentref heb iddynt gael y sylw a chlod haeddiannol. Dewch â'ch newyddion i mi gael eu cynnwys o fewn tudalennau'r Eco.**

**Cydymdeimlir** yn fawr â theulu'r diweddar Ellis Wyn Williams, Ffordd Deiniol, yn eu colled enfawr ddiweddar.

**Tywydd Garw** Gobeithio na fu neb yn dioddef yn ormodol yn dilyn yr eira a'r rhew diweddar, er yn braf gweld plant yr ardal yn mwynhau eu hunain yn yr eira, dim pawb fydd yn ei groesawu.

**Pont Lôn Garnedd** Gobeithio y bydd y bont newydd yn cael ei gosod yn fuan, mae colled fawr o beidio gallu teithio i fyny Lôn Garnedd gyda cherbyd. Diolch i'r Cynghorydd Elfed Williams am ei ymdrechion i ailosod y bont.

**Ysgol Sul Unedig Ebeneser**
Er mwyn diolch i'r plant am eu gwaith caled trwy'r flwyddyn ac am wasanaeth Nadolig arbennig, cafwyd parti Nadolig gwahanol gyda thrip i'r pictiwrs yn Llandudno ac yna te allan. Dymuna'r plant ddiolch i Anti Nan ac Anti Margaret am eu rhodd hael tuag at y parti.
Mae'r Ysgol Sul wedi ailddechrau am eleni ac yn cyfarfod am 10.15 bob bore Sul yn y Festri. Mae croeso i aelodau hen a newydd,.

**Gwaeledd** Dymunir gwellhad buan i unrhyw un sydd wedi dioddef o anhwylder yn ddiweddar, boed adref neu yn yr ysbyty.

**Dymuna** Mrs B. Griffiths, 5 Maes Gwylfa, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a'i gofalwyr caredig am y llu cardiau a'r anrhegion Nadolig a dderbyniodd a diolch o waelod calon am eu caredigrwydd a'u gofal drwy'r flwyddyn. Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.

**Y Seindorf** Cynhaliwyd cyngerdd Nadolig y Band Ieuenctid a'r Band Iau yn festri Capel Eban ar nos Lun, Rhagfyr 10fed. Roedd y ddau fand yn cymryd rhan gyda Llio Morris yn arwain y Band Iau ac Osian Tomos yn yn arwain y Band Ieuenctid. Yn cymryd rhan hefyd oedd Osian Trefor gyda Lois Eifion yn cyfeilio iddo a Lleisiau Llanbabs, a hyfforddir gan Lindsey Vaughan Pleming ac Eleri Bean. Yn ystod y cyngerdd gwobrwywyd Erin Haf Williams a Cai Gayther gyda Tharian Bessie May Williams am eu cyfraniad arbennig yn ystod y flwyddyn i'r Band Iau. Rhoddwyd Tarian Goffa Mr a Mrs O.H. Jones i'r chwaraewr a gyfrannodd fwyaf dros y flwyddyn yn y Band Ieuenctid i Jay Ellis.
Cafwyd noson gwerth chweil ac roedd festi'r capel yn orlawn a phawb wedi mwynhau cyfraniad arbennig dros saith deg o blant ac ieuenctid talentog. Ymwelodd Siôn Corn â'r festri yn ystod ei amserlen prysur a chyflwynodd anrhegion i'r holl blant oedd yn bresennol. Hoffai Osian a Llio ddiolch i'r holl rieni am eu cefnogaeth cyson, i'r plant a'r ieuenctid am eu cyfraniad gwerthfawr ac yn arbennig i Siôn Corn am gofio amdanynt eto eleni. Gwerthfawrogwyd hefyd gefnogaeth teuluoedd a phentrefwyr.
Roedd hon yn noson i'w chofio. Ddiwedd yr wythnos bu'r Band Ieuenctid yn diddori preswylwyr Plas Pen Gwaith, Llanberis a Chartref Nyrsio Penisarwaun. Diolchir i'r ddau gartref am eu croeso cynnes a'r lluniaeth unwaith eto eleni.

**Cylch Meithrin** Cafwyd prynhawn arbennig yn Festri Capel Ebeneser pan gyflwynodd y plant bach eu cyngerdd Nadolig a da oedd gweld y festri'n orlawn a phawb yn mwynhau eu gweld yn eu gwisgoedd pert. Ar ôl y canu brwdfrydig daeth ymweliad Siôn Corn a phob un o'r plant wrth eu bodd yn derbyn anrheg. Eistedd i lawr wedyn i fwynhau cawl poeth a thynnu cracer, a'r rhieni ac eraill o'r teulu yn cael mwynhau mins pei, bara brith a phaned.
Dymuna staff a phwyllgor y Cylch ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd i wneud y prynhawn yn llwyddiannus ac yn arbennig i'r rhai a gyfrannodd tuag at y raffl; i bwyllgor y capel am fenthyg y festri; i Annette Bryn Parri am rhoi'r gerddoriaeth ar dap ac, yn olaf, i Siôn Corn am ei ymweliad. Enillwyr y raffl oedd: mam Amelia, taid Harri, Brenda, Doreen nain Nel, Pat Felin, Carys, tad Jessica, Rhian mam Nel, tad Math, Owain, tad Beca, Pamela mam Glesni, Dewi tad Glesni, nain Gethin, Owain, nain Gethin, mam Gethin (bora), Gwnaed elw o £120 ar y diwrnod.
Gawn ni unwaith eto gymryd y cyfle yma i ddiolch i bawb am eu haelioni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac yn enwedig i bwyllgor Gŵyl Deiniolen a'r Cylch am eu cyfraniad hael. Mae cyfraniad o'r math yma o werth mawr i'r Cylch. Diolch yn fawr iawn.
Ar ddechrau blwyddyn fel hyn mi fydd croeso mawr i'r plant bach newydd fydd yn ymuno â ni. Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

**Pwyso am gadw Ffordd Deiniol yn glir.**
Mae'r Cynghorydd Elfed Williams yn pwyso ar Gyngor Gwynedd i raeanu Ffordd Deiniol ar gyfnodau o eira a rhew. Polisi Gwynedd ar hyn o bryd yw cadw ffyrdd yn glir ble ceir teithiau bysus arnynt. Ond dadl y cynghorydd lleol yw fod trigolion Pentre Helen a Hafod Oleu yn defnyddio llwybr troed i gyrchu Ffordd Deiniol er mwyn mynychu'r clinic, y syrjeri a'r siop. Mae cadw'r ffordd yn glir yn bwysig hefyd pe bai angen galw ambiwlans i'r syrjeri mewn achos o frys.

GLANHAWR SIMDDE
Glanhau Simdde Tân Agored
ac hefyd
Stôf goed a "Multi Fuel"
Aga/Rayburn- Olew/Nwy
Gosod Cawl • Weirio rhag Jac-do
Cysylltwch â Tom Jones
(01286) 881305
WEDI PRYNU BUSNES Y DIWEDDAR MR. GWYNFRYN LLOYD

BYSUS RHIWLAS
Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partion, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044
D. P. OWENS RHIWLAS

# DINORWIG

Marian Jones.
Ffôn: (01286) 870291

**Dechrau'r Flwyddyn Newydd** A ninnau unwaith eto yn wynebu ar flwyddyn newydd ac yn meddwl yn ddifrifol i ba le yr aeth 2012 mor sydyn, ga i ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Er yn gwybod na fu blwyddyn 2012 yn rhy garedig i rai yn yr ardal, yr ydym yn dymuno iddynt flwyddyn llawer gwell eleni.

Collwyd tair o wragedd yr ardal yn ystod y llynedd. Ar ddechrau blwyddyn newydd fel hyn yr ydym yn anfon ein cofion at Mrs Alice Thomas, 1 Bro Elidir gynt, sydd yn cartrefu erbyn hyn yn Plas Pengwaith, Llanberis, ond fel a ddeallaf nid yw hi yn rhy dda ond gobeithio y bydd yn cadw yn weddol ac yn barod am y flwyddyn newydd.

Yr ydym yn anfon ein cofion hefyd at Mrs Nellie Williams, 2 Bro Elidir gynt, cymdoges Mrs Thomas, sydd yn Ysbyty Eryri ar hyn o bryd ar ôl syrthio yn ei chartref, 29 Rhydfadog, hithau ddim yn rhy dda a'r golwg yn pallu. Gobeithio am flwyddyn lawer gwell ichwi ac y byddwch gartref yn reit fuan.

Dymunwn bob bendith ac iechyd i bawb sydd yn cwyno yn y flwyddyn newydd ma.

**Profedigaeth** Ar 12 Ionawr daeth y newydd trist i'r ardal am brofedigaeth Margaret Craigle gynt, wedi colli ei gŵr, Mr Ellis Wyn Williams, Craigle, Ffordd Deiniol, Deiniolen. Er fod Margaret wedi priodi ers 52 mlynedd ac wedi symud i fyw i Ddeiniolen ers hanner can mlynedd nid yw wedi colli cysylltiad ag ardal Dinorwig. Colled fawr iawn iddi yw colli ei gŵr, ac hefyd fe fydd colled fawr ar ôl Ellis yn yr ardal. Bu yn aelod ffyddlon o Seindorf Arian Deiniolen am flynyddoedd ac yn dal i feddwl nad oedd Seindorf debyg iddi. Yr oedd yn ŵr cymwynasgar a rhadlon iawn. Ganwyd iddynt dair o genod, sef Siân, Nia a Mari.

Bu ei angladd yn Eglwys Crist Llandinorwig ac fe roddwyd ei weddillion i orffwys ym Mynwent Llanddeiniolen.

Margaret a'r genod, fel un o blant Dinorwig, derbyn ein cydymdeimlad llwyraf â thi a gobeithio y cei nerth yn ystod y dyddiau tywyll yma i ddal y golled ac y byddi yn gallu cofio y pethau da a'r atgofion melys sydd gennyt ti a'r genod o'r hen El. Yn meddwl llawer amdanat. Pob bendith.

**Llongyfarchiadau** i Mrs Iona Wyn Williams, 12 Maes Eilian, am ddod yn nain unwaith eto. Dona wedi geni mab bychan ar 20 Ionawr, cefnder i Hayle. Gobeithio y caiff nerth ac iechyd i'w fagu.

BARRYS GLASS
FFENESTRI • DRYSAU
Conservatori UPVC
Trwsio Unedau "DOUBLE GLAZING"
Trwsio a Gosod Gwydr
(01286) 872772
Symudol- 07840 794269

ANGEN
2 neu 3 Cynorthwywr Personol YN LLANRUG
Bydd y 2/3 yn rhan o DÎM fydd yn cefnogi dyn 46 deg oed, defnyddiwr cadair olwyn, gyda'i holl anghenion personol, bywyd dyddiol a'i weithgareddau cymdeithasol
Rhaid I'r Ymgeisiwr Beidio Bod Yn Ysmygwr
Posibilrwydd O Swydd 1,2,3 Neu 4 Diwrnod
9 y bore tan 8 yr hwyr MERCHER i SUL
CYFLOG- £9. YR AWR 9yb Tan 8yh
Gyda 1¼awr o egwyl ddi-dal yn ddyddiol. e.e swydd 3 diwrnod=£263.25 yr wythnos
AM FWY O WYBODAETH CYSYLLTWCH A RHIF FFÔN SYMUDOL 07857890705

# BRYNREFAIL

**Sefydliad y Merched** Croesawyd yr aelodau i gyfarfod cyntaf y Flwyddyn Newydd, nos Iau, Ionawr 17eg ac estyn croeso hefyd i'r wraig wadd, June Lane i roi sgwrs am Goleg Denman. Fe'i hetholwyd yn westywraig y Coleg pan oedd yn Gadeirydd Sir. Rhoddodd adroddiad ar sut y bu i Sefydliad y Merched brynu'r adeilad ar gyfer eu haelodau a sefydlu'r Coleg. Cafwyd disgrifiad o'r adeiladau, y cyrsiau a drefnir ynghyd â'r cyfle sydd ar gael i unrhyw aelod drefnu i ddilyn cwrs ac aros yn y Coleg. Ar y terfyn cafwyd Cwis wedi ei seilio ar y sgwrs a diolchwyd yn gynnes iawn i Jean Lane am gyflwyniad difyr a noson hwyliog.

Ar gyfer y 25ain o'r mis, trefnir i ymweld â'r Cwrt yng Nghaernarfon.

**Profedigaethau** Ar Ionawr 3ydd, yn ddisymwth, bu farw Tommy Evans, 4 Trem Eilian, yn Ysbyty Gwynedd yn 64 mlwydd oed. Roedd yn enedigol o'r pentref a'r olaf mae'n debyg o'r trigolion a fu'n byw yn yr un cartref yn Nhrem Eilian o'r cychwyn cyntaf. Bydd yn chwith ei golli o'n plith. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i frodyr, Gareth a Boris, a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Ar ddydd Gŵyl San Steffan daeth y brofedigaeth o golli ei fam, y ddiweddar Jean Davies, Rhyd y Delyn, Llanrug yn 89 mlwydd oed i ran Eryl Davies, Bryn Madog. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu hwn hwythau yn eu profedigaeth.

**Yr Eglwys Bresbyteraidd** Gwasanaeth Nadolig Bnawn Sul, Rhagfyr 16eg, gyda'r Ystafell Addoli wedi ei haddurno ar gyfer y Trydydd Sul yn Adfent daeth nifer dda o' r aelodau ynghyd i'w hoedfa Nadolig, wedi ei threfnu eleni gan Lywydd y mis, Lowri Roberts Williams. Wedi cyflwyniad a galwad i addoli gan y llywydd cymerwyd y rhan agoriadol gan Gwyn Hefin ac Ifanwy Jones a'u hŵyr, Huw Gwynn. Cafwyd Darlleniad a Chân gan Dwynwen Williams a'i hwyres Elliw Williams. Cyflwynwyd y darlleniadau o'r Ysgrythur gan Verna Jones, Dilys Evans, Marian Edwards, Jennie Angharad Roberts a Robert John Williams a charolau cynulleidfaol yn eu plith. Cyflwynwyd carol a'i chefndir gan Iris Rowlands a detholiadau o farddoniaeth Nadolig gan Rhian George a Dafydd Ellis. Yn dilyn ei gyflwyniad ymunodd Dafydd Ellis mewn datganiad cerddorol gyda Irfon Ellis a Robert John Williams. Hyfrydwch i'r aelodau eleni oedd cael cwmni eu Gweinidog, y Parch Marcus Robinson yn y cyfarfod arbennig hwn a gwerthfawrogwyd ei argraffiadau am yr amrywiol brofiadau a ddaeth i'w ran mewn dathliadau o'r Nadolig yn y gorffennol ynghyd â'i arweiniad mewn gweddi. Cafwyd myfyrdod i gloi gan y Llywydd a chyhoeddwyd y Fendith gan y Gweinidog. Cafwyd diwedd pleserus i'r prynhawn gyda lluniaeth wedi ei drefnu a chyfle i gymdeithasu ym Mwyty Caban.

Cydymdeimlo. Yn yr oedfa nos Sul, Ionawr 6ed, estynnwyd cydymdeimlad ar ran yr eglwys gan Lywydd y mis, Jennie Angharad Roberts â Lowri Roberts Williams, Godre'r Coed yn ei phrofedigaeth o golli ei hewythr, y diweddar Alun Roberts, Llanwnda (gynt o Fryn Madog) ac â Irfon Ellis a gollodd ei frawd, y diweddar Gwilym Ellis yn Llandrindod.

**Oedfaon Chwefror**

3 am 5.30: Parch Marcus Robinson (Gweinidog)
10 am 2.00: Mr Andrew Settatree (Cynllun EFE)
17 am 5.30: Parch W.R. Williams, Y Felinheli
24 am 5.30: Miss Sioned Williams, Bethesda

CHIROPODYDD
GALWADAU I'R CARTREF
RICHARD THOMAS SRCh/HPC
Cysylltwch- Symudol 0797 631 6487 • Tŷ 01758 612384



Eco Chwefror 2013.indd 9 28/01/2013 20:40

# "Trigo'r Wyf...."

Rai dyddiau yn ôl ail-gydiais yng nghyfrol hunan-gofiant Meirion Parry, cyn brifathro Ysgol Eifion Wyn, Porthmadog, a gyhoeddwyd yn 1984; darlith a draddodwyd ganddo yn rhan o gyfres cyhoeddiadau Llyfrgell Penygroes, dan y testun 'Dwyn mae cof'.

Yn ei ddarlith soniodd meirion am y cyfnod pan yn swyddog yn y fyddin, ac yn aelod o'r Gymdeithas gymraeg yn Rangoon, Burma, gan ganolbwyntio ar ddathlu Gwyl ddewi yn 1946. Trefnwyd rhaglen gan aelodau'r Lluoedd Arfog i'w darlledu yn Gymraeg ar Radio Burma. Yn ôl Meirion, "yr oedd y canu yn fendigedig; yr hen ffefrynnau i gyd, ac wrth gwrs, 'Hiraeth y Cymro'".

Awdur alaw y gân honno oedd Robert lloyd Roberts (Ffrwd Alaw), Brynrefail, a'r geiriau gan Nellie Holland, Llanberis. Yn ôl Haydn, mab Nellie, sydd yn byw yn Llanllyfni, cyfansoddodd ei fam y geiriau yn wreiddiol i'w brawd, Bob Holland, oedd yn byw yng Nghanada ar y pryd, ac yn bur hiraethus am Gymru.

Gwn, fel amryw un arall yn y fro, pa mor boblogaidd y daeth y gân hon yn ystod blynyddoedd y Rhyfel. Yn ddi-feth, bob nos Sadwrn, ar y bys dybl-dec Crosville o Gaernarfon am ddeg o'r gloch i Lanberis, 'Hiraeth y Cymro' fyddai ffefryn y 'gynulleidfa'! Cychwyn canu wedi croesi'r bont ym Mhontrug, a phan fyddwn i a chriw Brynrefail yn gadael y bws ym Mhenllyn, byddai nodau a geiriau 'Trigo'r wyf… (fel y gelwid hi gan bawb) yn dal i ddiasbedain, ac felly, mae'n siwr, yr holl ffordd i Lanberis.

Y syndod mawr i mi. o gofio mor boblogaidd oedd yr alaw ac mor ganadwy yn ogystal, ydi na chlywir y gân o gwbl ers blynyddoedd bellach, a rhaid i mi ofyn 'Pam fod hynny'n bod?'

Mae'n siom anesboniadwy i mi na fyddai o leiaf un o'r myrdd o wahanol bartion canu yn ardal "Eco'r Wyddfa" yn mynd ati i'w chynnwys yn eu 'repetoire'. Beth amdani bartion y fro?

Perygl anwybyddu cân mor ganadwy ydi iddi fynd yn angof llwyr, a hynny wedi blynyddoedd o fod yn hynod boblogaidd, yn enwedig yn yr ardal hon.

A fydd adfywiad? Gobeithio'n wir.

Rol Williams, Waunfawr.

**Hiraeth y Cymro.**

Trigo'r wyf mewn gwlad estronol
Ac yng nghanol coedwig werdd
Clywaf beunydd sain y wennol
Gyda'i chôr mewn swynol gerdd:
Er mor beraidd yw ei miwsig,
Er mor dyner yw ei chân,
Codai hiraeth yn fy nghalon
Am fy annwyl Gymru lân.

Nid oes mwyach gysgod derwen,
Nid oes nythod yn y llwyn;
Ple mae'r côr o frig y fedwen?
Ple mae'r wennol? – dyna'm cwyn:
Cedaf iddynt oll ehedeg
Draw i Gymru dros y don;
Mwy nis gallaf aros yma
Yn y goedwig unig hon.

Er i flwyddi maith ddiflannu,
Er cael llawer tro ar fyd,
Er i'm ganwaith fynd dan ganu,
Pam arhosais yma c'yd?
Rwy'n ymdrechu cuddio deigryn
A fy nwylo dan fy mhen;
Hed fy meddwl i'r hen fwthyn
Ar y bryn yng Nghymru wen.

Mi ganlynaf yr aderyn
I fy annwyl Walia Wen;
Adre'n ôl i wlad y delyn,
Dyma'r orau dan y nen.
Canaf eto hen alawon
Bendigedig, gwlad y gân.
Dyma fangre fy nghyfeillion;
Dyma'm nefoedd, Gymru lân.

Nellie Holland.

## PENISARWAUN

**Cydymdeimlad.**
Wedi salwch byr bu farw Gwilym W. Ellis ar y 19eg o Ragfyr y llynedd. Yn wreiddiol o'r Weirglodd Goch, bu'n byw yn 'Gwyrfai', Llandrindod ers blynyddoedd. Cydymdeimlwn gyda'i weddw, Mai; ei blant, Arthur, Ffion, Eirian ac Eilir; a hefyd gyda'i frawd a'i chwaer, Irfon a Nansi.

**Fel y gwelwch mae newyddion Penisarwaun gryn dipyn yn llai o faint nac arfer y mis hwn!**

Roedd yn arferiad cael llond tudalen (o leiaf) o newyddion, ond mae colli gohebydd cydwybodol wedi bod yn golled i'r Eco, ond yn fwy felly i chwi drigolion y pentref.
Siawns nad oes rhywun yn fodlon gafael yn y gwaith.
Cysylltwch ar fyrder gyda'r golygydd neu'r Cadeirydd er mwyn rhoi'r sylw priodol i newyddion y pentref.

## Cefnogwch ein hysbysebwyr


PADARN LAKE
LLANBERIS (01286) 870260



PRYDAU DA AR GAEL POB DYDD
CANOL DYDD
A GYDA'R NOS
Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng 12.30 a 3.00 o'r gloch
TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00
Cyfleusterau- Bartion• Priodasau ac Achlysuron Arbennig

Gwesty Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277







Eco Chwefror 2013.indd 10 28/01/2013 20:40

# CHWILOTA

## Penbleth Mynydd Jiwbili.






*Dyma gopi o Fap 1889 gyda'r llythrennau a'r dyddiad wedi eu hamlygu. Cymharwch â'r llun.*

Yn dilyn cyhoeddi'r llun o goed y Jiwbili ar lethrau Moel Rhiwen yn rhifyn Rhagfyr, daeth galwadau ffôn ac ymweliadau gyda mwy o wybodaeth am hanes y coed. Gyda diolch yn arbennig i Ceri Foulkes a Ciss Rowlands o Ddeiniolen am gysylltu. Ond, o gael gwybodaeth ychwanegol, daeth hefyd beth penbleth.

Yn y llun – a dyma ei ddangos eto'r mis hwn er mwyn i chwi gael cymharu – fe welir fod y llythrennau VR wedi eu gosod rhwng diwedd y Jubilee a'r dyddiad 1887. Mae gwagle hefyd rhwng yr 18 a'r 87 yn y dyddiad. Y mae'n amlwg hefyd fod y llun wedi ei dynnu ar ôl adeiladu Tai Victoria, sydd i'w gweld yn chwith eithaf y llun.

Mae Map Ordnans 1889 hefyd yn dangos y coed ar lethrau Moel Rhiwen, a doedd Tai Victoria ddim wedi eu hadeiladu bryd hynny. Mae'r map hwnnw yn dangos fod y J heb fod ymhell o Faes Meddygon, a'r E olaf uwchben Tan y Beran, cryn dipyn oddi wrth yr E yn y llun, sydd uwchben Tai Victoria.

Ar goll o'r llun hefyd mae'r llythrennau GWDAS, sef George William Duff Assheton Smith. Mae Map Ordnans 1889 yn eu dangos yn glir uwchben Cae'r Mynydd, gyda'r S olaf yn union oddi tan yr E olaf yn Jubilee, sef uwchben Tan y Beran.

Does dim son am y llythrennau VR ar y Map Ordnans, ac y mae'r rhifau yn y dyddiad 1887 yn llawer nes at ei gilydd nac yn y llun, ac wedi eu lleoli uwchben Moel y Blochdy.

O astudio Map Ordnans 1914, fe welir fod mwy o goed wedi eu plannu ar Foel Rhiwen, ond fod JUBILEE, GWDAS a 1887 wedi diflannu. Mae Tai Victoria yn bod erbyn hyn, ac wedi eu dangos ar y map.

Y cwestiwn sy'n aros yw pryd yr adeiladwyd Tai Victoria? Mae'n amlwg iddynt gael eu codi rywbryd rhwng 1889 a 1914. Ac mae'n amlwg hefyd i'r llun gael ei dynnu rhwng dyddiad adeiladu'r tai a'r flwyddyn 1914. Ond pryd yr ychwanegwyd VR, a phryd y diflannodd GWDAS?

Mae'n bosibl, wrth gwrs, i'r ychwanegiadau gael eu gwneud yn 1899 pan oedd y Frenhines Victoria yn dathlu chwe deg mlynedd o deyrnasiad. Roedd nifer o goelcerthi yn cael eu tanio ar y copaon bryd hynny, ac y mae'n bur sicr fod cerrig cannons yn cael eu saethu hefyd. Deuai pobl o bellter i ddringo'r Bigil er mwyn cael gweld yn glir y geiriau Jubilee !887.

Torrwyd nifer o'r coed i lawr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, ond mae'n debyg mai yn ystod yr Ail Ryfel Byd y cafodd y cyfan o'r mynydd ei glirio o goed. Trueni na fyddai mwy o luniau ar gael o'r cyfnod hwn.

## Taith Bysus Deiniolen.

Gair byr i gloi hanes y Bangor Blue. Roedd y daith o Ddeiniolen yn dilyn y ffordd i Ynys Iago cyn troi drwy Carfan am Bentir. Yna, ymlaen am Rydygroes a Llandegai a dod i mewn i Fangor drwy Hirael. Roedd bysus eraill – Bysus Johnny Hughes (Bethesda Motors wedyn) yn mynd yn syth i lawr Nant y Garth ac yn dilyn ffordd Caernarfon drwy Glanadda i Fangor. Yn ôl pob son, bu Cwmni Crosville yn ceisio cael hawl ar y llwybr hwn wedi iddynt brynu Cwmni'r Bangor Blue.

Ceir yr hanes a lluniau o'r gwahanol fysus mewn amryw o lyfrau a ysgrifennwyd i gofnodi'r gwahanol gwmniau yng ngogledd Cymru.

## Llwyn Celyn, Llanberis.

Rwy'n chwilio am lun o'r hen Lwyn Celyn. Tybed oes rhywun efo copi yn ei feddiant?


FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.fframia.com
Gwasanaeth Fframio Lluniau
Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.





Royal Victoria Hotel LLANBERIS
PRIODASAU
Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
Ffôn- 01286-870253
Mev-royalvictoria@legacy-hotels.co.uk

## CHWILOTA
*Parhad*

**Ymfudwyr eraill i'r America.**

Yn dilyn hanes J.W.Morris o'r Fachwen yn mudo i Slatington, cysylltodd Mair Foulkes, Penisa'rwaun gyda gwybodaeth am un arall o'r fro a aeth i'r un ardal.

Ymfudodd Margaret a Rhys Foulkes o Gwmaelhir, Nant Peris i'r America. Buont yn llewyrchus, gyda Margaret yn cadw ty bwyta a'i gwr yn gweithio yn y chwareli llechi. Collwyd geneth fach chwech oed pan losgwyd Elin i farwolaeth, ac yn fuan wedyn, dychwelodd y teulu i Gwmaelhir. Roedd ganddynt ddau fab erbyn hyn, sef Rhys a William. Ond yn ôl i'r America y mynnai Rhys y mab fynd, ac yn Slatedale, priododd a chael pump o blant. Enwodd y mab yn William ar ôl ei frawd oedd yn helpu ei dad ar y fferm gartref ac yn gweithio yn Chwarel Dinorwig.

Ar y 4ydd o Ragfyr 1889 priododd William Foulkes, Cwmaelhir â Mary Anne Jones, Garnedd Wen, Y Fachwen. Fe'u cyfarchwyd ar gân gan Evan E. Jones (Ieuan Peris):

"Byw dan awyr byd newydd."

Ar lethrau beilch Dinorwig
Sy'n frith gan fythod glân,
Mae llawer geneth brydferth
A swynol iawn ei chân;
Fe ganai un ryw ddiwrnod
Ar lan y llyn gerllaw,
A'r awel gludai'r nodau
I droed y mynydd draw.

Ar un o greigiau'r Derlwyn
Eisteddai llencyn llon,
A'r llais yn eco'r mynydd
A ganai ger ei fron;
Gwrandawai y beroriaeth
A theimlodd rym ei swyn;
O'r mynydd aeth i chwilio
Am yr aderyn mwyn.

Aeth heibio'i Gastell Padarn
Yn gyflym ar ei droed,
A chlywai'r llais yn trydar
Drachefn yn eco'r coed;
Mae'n mynd dros Bont y Bala
A thrwy y Gilfach Ddu,
Draw gwela eneth hawddgar
Yn eistedd ger y lli.

Roedd nodau pêr yr alaw
A llais y fwynaidd ferch
Yn eco'r coed a'rmynydd
Yn cyffwrdd yn ei serch;
Ond llygad byw yr eneth
Afaela ynddo'n dynn
A'i gwedd sy'n sugno'i
Yn awr ar lan y llyn.

Ac yno gwnaed cytundeb
Yng ngolau sêr y nen
Rhwng William Foulkes, Cwmaelhir
A Mary'r Garnedd Wen;
A seliwyd hwnnw heddiw
Ac euraidd fodrwy gron,
Brawf angerddoldeb cariad
Sy'n llosgi dan eu bron.

Boed gwres eich serch yn danbaid
I wywo pob peth croes,
A gwenau mwyn eich cariad
Yn lleddfu pob rhyw loes;
Doed llanc ar lin ei 'dada'
I wenu'n llon ac iach,
A lodes blethu'i dwylo
Am wddf ei 'mami bach'.

Yn anffodus, ni wireddwyd y dymuniad yn y pennill olaf. Bu Rhys Foulkes, Cwmaelhir farw yn 1890, ac ar ddiwedd yr un flwyddyn, lladdwyd William yn y chwarel – ddeufis cyn geni ei fab. Galwyd y plentyn bach yn William Rees – i gofio am ei daid a'i dad. Fe'i magwyd yn y Garnedd Wen, a chollwyd pob cysylltiad â'r teulu yn America. Er hynny, nid dyna ddiwedd y stori…

Ddeugain mlynedd yn diweddarach, aeth y Parch John Pritchard, Llanberis ar daith bregethu i'r America, ac yng Nghapel Slatington, Pennsylvania cyfarfu â William Foulkes, sef cyfyrder William Rees, Garnedd Wen. Rhoddwyd llythyr i'r Parch John Pritchard i'w anfon i'r caban yn Chwarel Dinorwig, ac felly yr ail gysylltwyd wyrion Rhys Foulkes, Cwmaelhir wedi deugain mlynedd o ddieithrio.

Bellach, mae dros ugain o ddisgynyddion William Foulkes, Slatington wedi ymweld â bro eu hynafiaid, ac y mae Peter Foulk Kern a'i wraig yn dod yn flynyddol. Mae'r ddau yn aelodau o gerddorfa Pablo Cassals yn Puerto Rico. Yr un yw'r drefn bob blwyddyn: prynu sglodion yn Llanberis ac eistedd yng nghysgod Cwmaelhir i'w bwyta. Yna, ymweliad â'r eglwys yn y Nant i dalu teyrnged i orffwysfa olaf eu hynafiaid. Er fod nifer o'r teulu yn parhau i fynychu Cymanfa Ganu flynyddol Capel Slatington, dim ond un frawddeg o'r Gymraeg sy'n dal ar y cof, sef grâs bwyd: "Diolch i ti Iesu Grist am damaid o fwyd."

Llawer o ddiolch am hanes hynod ddiddorol

---

Cyn cloi, tybed oes rhywun â gwybodaeth am Evan E. Jones, a alwai ei hun yn Ieuan Peris. Oes mwy o'i waith barddol ar gael? Cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (01286 673515) gydag unrhyw ymholiad neu wybodaeth sy'n berthnasol i hanes y fro.

## CWM Y GLO

**Eisteddfod Yr Urdd** 2012 Casglwyd £10130.80 yn yr ardal tuag at yr Eisteddfod yng Nglynllifon. Roedd yr ymdrechion yn ganmoladwy iawn yn yr hinsawdd ariannol i geisio cyrraedd targed o £12mil. Diolch i bawb am gyfrannu ac am waith caled aelodau'r pwyllgor. Diolch i'r Cyngor Cymuned am bob cymorth a chefnogaeth.

**Undeb y Mamau** Ail gychwynnodd ein cyfarfodydd bnawn Mawrth, 15 Ionawr. Cafwyd ton o weddi yn eglwys Sant Mair Caernarfon. Yn cymeryd y gweddiau oedd Auriel, Iola ac Iris. Yr organyddes oedd Louie Jones a rhoddwyd y fendith gan y Rheithor, Y Parch. Roger Donaldson. Cafwyd lluniaeth wedi ei baratoi gan Katie a Nerys a thrafodwyd materion oedd wedi dod i law ers cyfarfod mis Rhagfyr. Rhoddwyd y raffl gan y gwesteion ac fe'i henillwyd gan Louie Jones. Diolchodd Auriel i bawb oedd wedi cymeryd rhan yn y gwasanaeth. Terfynwyd trwy adrodd y gras yn Gymraeg a Saesneg. Cyfarfod nesaf 20 Chwefror yn "Feed my Lambs" Caernarfon.

**Capel y Tabernacl** Nos Iau, 13 Rhagfyr a nos Lun, 17 Rhagfyr, daeth plant yr Ysgol i'r capel i gyflwyno eu Drama Nadolig. Diolch i'r athrawon am hyfforddi'r plant ac yn arbennig 'r plant am waith clodwiw. Wedi'r gwasanaeth nos Lun aeth y plant a'u rhieni draw at yr Orsaf Betrol ble roedd Siôn Corn yn disgwyl amdanynt i roi golau y goeden Nadolig ymlaen, yna i'r ysgol am baned a mins pei a oedd wedi ei baratoi gan Mrs Nia Oliver, Anti Christine a Meira Williams.

**Priodas** Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Terry Williams, Bryn, ac Annwen Burgess o Fethesda ar achlysur eu priodas yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon ar 13 Rhagfyr.

**Yn yr Ysbyty** Anfonwn ein cofion gan ddymuno gwellhad buan i Mrs Mair Williams, Elidir View, Bwlch, sydd yn Ysbyty Gwynedd.

**Genedigaeth** Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Kim a Trefor, Tai Bryn Crwn, ar enedigaeth merch fach, Rebecca Lily.


ECO'r Wyddfa
Cefnogwch ein hysbysebwyr

**Cynnyrch a gwasanaethau priodol ar gyfer y rhai dros 50 oed**

- Yswiriant Cartref
- Yswiriant Teithio
- Larymau Personol
- Yswiriant Car
- Nwy a Thrydan
- Cynlluniau Angladdau



**Am bris heb rwymedigaeth, ewch i:**
Age Concern Gwynedd a Mon
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon LL55 2YD
Ffôn: **01286 678310**
(ar agor 9am–5pm Mon to Fri)

Neu ffoniwch **0800 085 3741** neu ewch i **www.ageuk.org.uk/products**

**Darperir yswiriant cartref, car a theithio gan Yswiriant Ageas Cyfyngedig.**
**Darperir Nwy a Thrydan gan E.ON Energy Solutions Cyfyngedig.**
Age UK yw nod masnach Age UK (Elusen rhif 1128267). Defnyddir enw a logo Age UK o dan gytundeb trwydded rhwng Age UK ac Age UK Enterprises Limited, sef eu cangen gwasanaethau masnachol. Rhoddir yr elw net i Age UK. Age UK Enterprises Limited, Linhay House, Ashburton, Devon TQ13 7UP. ID9975 11/10 MP2430V2APR11 SL031616_11_1




Eco Chwefror 2013.indd 12 28/01/2013 20:40

# Croeso'n y glaw.

Yn y dyfodol, bydd pobl yn edrych yn ol ac yn cysylltu glaw a'r flwyddyn 2012 am wahanol resymau: llifogydd, gwyliau wedi eu difetha, ffermwyr yn colli cnydau, garddwyr yn cwyno. Ond glaw oedd un o'r rhesymau pam fod siop yng Nghaernarfon wedi ei henwi'n un o siopau llyfrau annibynnol gorau Prydain.

Mae Palas Print yn Stryd y Plas newydd ddathlu ei phenblwydd yn ddeg oed, a'r perchnogion, Eirian James a Selwyn Jones yn byw'n Llanrug. Bu Eirian yn aelod o dim golygu'r "Eco" rai blynyddoedd yn ol.

Papur dyddiol y 'Guardian' sy'n rhoi cryn sylw i siopau llyfrau annibynnol, ac yn ystod haf gwlyb y llynedd, treuliodd un o'u gohebwyr orig bleserus tu hwnt yn osgoi'r glaw yng Nghaernarfon. Nid fod angen glaw yn esgus i droi i mewn i'r siop sy'n denu pobl leol ac ymwelwyr gyda'i ffenestr ddeniadol a chyfnewidiol.

Mae'r siop yn cynnig dewis helaeth o lyfrau Cymraeg a Saesneg, gyda chongl arbennig wedi ei neilltuo ar gyfer plant – a chadeiriau moethus i rieni ymlacio arnynt efo paned tra bo'r plantos yn pori. Ceir yma hefyd stoc helaeth o gylchgronau a phapurau bro Arfon a thu hwnt, a digonedd o wahanol gardiau cyfarch.

Un o'r pethau a dynnodd sylw'r gohebydd o'r 'Guardian' oedd y ffaith fod gwaith awduron Cymreig sy'n ysgrifennu yn Saesneg yn cael eu gosod ar yr un silff a gwaith awduron poblogaidd Saesneg, ac yn cystadlu'n ffafriol. Mae pwyslais hefyd yn cael ei roi ar lyfrau barddoniaeth a hanes Cymru yn y ddwy iaith.

Hon yw siop lyfrau leol ein bro, ac y mae'r croeso bob amser yn dwym-galon – boed hindda neu law!




## Côr Dinas Bangor

Bum mlynedd ar hugain yn ôl, yn Ionawr 1988, ffurfiwyd y Côr gan James Griffiths. Ar ôl ysgrifennu i'r papurau lleol daeth 12 o ddynion dewr i Ganolfan Esgobaeth Bangor yn Stryd Waterloo gyda'r bwriad o ffurfio côr meibion ym Mangor. Yr oedd James Griffiths yn Is Organydd Cadeirlan Bangor ar y pryd a Deon Bangor, y diweddar Ivor Rees a ddaeth yn Esgob Tyddewi yn ddiweddarach, yn gefnogol i'r syniad gan roi Canolfan yr Esgobaeth yn rhad ac am ddim am rai wythnosau i'r Côr gael ei sefydlu yn iawn. Dau arall oedd yn gefnogol i'r syniad oedd y diweddar Idris Thomas o Fethesda - cadeirydd cyntaf y Côr a hefyd y diweddar Cyril Roberts, Bangor. O'r deuddeg gwreiddiol dim ond dau sydd ar ôl yn y Côr, sef Emrys Hughes a James Griffiths.

Ar draws y blynyddoedd y mae'r Côr wedi rhoi rhai cannoedd o gyngherddau, wedi teithio llawer i America, Canada, Yr Almaen, Awstria, Malta, Cyprus, Llydaw a Gogledd Iwerddon. Cyfeilydd y Côr bron iawn o'r cychwyn yw Lowri Roberts Williams o Frynrefail, ac mae hi wedi bod yn hynod o ffyddlon i'r Côr ar draws y blynyddoedd. Y mae'r Côr hefyd wedi cynhyrchu CD sydd wedi cael derbyniad gwych gan i sawl darn arno gael ei ddewis i fod ar CD efo Corau Llanelli, Godre'r Aran a Phontarddulais i enwi tri.

Bydd James Griffiths yn ymddeol o'r Côr ar ddiwedd Ionawr ond yn aros ymlaen nes bydd arweinydd newydd wedi cael ei benodi.

Yn y cyfarfod blynyddol nos Fercher, 23 Ionawr, etholwyd y canlynol

Llywydd: Mr Cledwyn Jones; Cadeirydd: Dafydd Ellis; Is Gadeirydd: Gwyn Hefin Jones; Ysgrifennydd: Owain Myfyr Parry; Trysorydd: H.H. Williams. Pwyllgor: Norman Evans, Emrys Hughes, R.J. Williams, Doug Jones, Elwyn Jones.

Ar nos Wener, 25 Ionawr, cynhaliwyd cinio dathlu chwarter canrif bodolaeth y Côr yng Ngwesty Carreg Bran. Ceir mwy o fanylion am y digwyddiad hwn yn y rhifyn nesaf.

## Heddlu Gogledd Cymru

Beic newydd fel anrheg Nadolig? Cofrestrwch o heddiw!

Gawsoch chi feic newydd fel anrheg Nadolig neu ydych chi wedi prynu beic newydd yn y sêl? Os gawsoch chi, mae Heddlu Gogledd Cymru yn gofyn i berchnogion gofrestru eu beics er mwyn helpu lleihau trosedd.

Dros y misoedd diwethaf mae nifer o feiciau wedi cael eu dwyn ar draws Gogledd Cymru, gyda nifer o'r rhain yn feiciau arbenigol a drud.


Mae Heddlu Gogledd Cymru a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol lleol wedi ymuno â 'BikeRegister' - cynllun adnabod a chofrestru beics ar-lein mwyaf y DU, i helpu ceisio lleihau lladradau ac adnabod beics sydd wedi cael eu dwyn yng Ngogledd Cymru.

Gall beiciau gael eu cofrestru yn rhad ac am ddim drwy roi manylion y ffrâm, ond mae opsiynau ychwanegol ar gael i brynu pecynnau marcio Efydd, Arian ac Aur sydd yn cynnig lefelau gwahanol o ddiogelwch.

Unwaith y bydd y beic wedi cael ei gofrestru gall y perchnogion fynd ar wefan BikeRegister (www.bikeregister.com) gyda'u cyfrinair a chyfathrebu â pherchnogion eraill. Mae yna hefyd gyfleuster i chwilio am feics sydd wedi cael eu dwyn a llawer iawn mwy.

Os yw eich beic yn cael ei ddwyn, riportiwch y mater i'r heddlu drwy ffonio 101 a marciwch o fel beic sydd wedi cael ei ddwyn ar eich cyfrif cyn gynted ag sy'n bosib. Gall riportio eich beic fel un sydd wedi cael ei ddwyn, neu sydd ar goll, gynorthwyo'r heddlu i adnabod ei ddisgrifiad a'i ddychwelyd yn ôl atoch.

Mae rhagor o wybodaeth ar sut y gallwch gadw eich beic yn ddiogel ar gael yn ein Adran Cyngor a Chymorth ar ein gwefan www.heddlu-gogledd-cymru.police.uk




## Cefnogwch ein hysbysebwyr



Eco Chwefror 2013.indd 13 28/01/2013 20:40






# Sêr y Flwyddyn
## (Unrhyw flwyddyn!)

Meddyliwch am fore'r Nadolig. Yr holl chwysu! Y panig! A fydd popeth yn dod at ei gilydd yn flasus ac ar amser? A neb arall mawr yn helpu 'de.
Wel! Sut fasa chi'n hoffi coginio cinio 'Dolig at gyfer 700!!!!!!? A coginio dewis i gynnwys bwydydd llysieuol. Wel, da ni'n hynod o falch bod gynnon ni cystal criw o gogyddesau ym Mrynrefail, yn wir werth eu pwysau mewn aur. Ac nid yn unig am y wledd o ginio Nadolig. Pob diwrnod Ysgol maent yn paratoi danteithion o'r safon uchaf, gyda gwahanol ddewis o brydau i ogleisio pob paled.
A mwy na hynny. Gewch chi wên hefyd.
Genod Brynrefs – da 'de





# Hacio

A ninnau ar drothwy'r Nadolig ac yn croesawu hen ffrindiau yn ôl i'w cynefin beth oedd yn well dwad na chroesawu cyn-ddisgyblion, sef Lois Angharad a'i dyn camera Carwyn Machno, i'r Ysgol i recordio rhifyn o'r gyfres 'Hacio'. Ac yn wir fe gafwyd trafodaethau difyr iawn ar ddefnydd yr iaith Gymraeg yn sgil canlyniadau Cyfrifiad 2011.
Er y lleihad yn nefnydd yr iaith yn gyffredinol mae dros hanner poblogaeth Gwynedd a Môn yn siarad Cymraeg. Calonogol felly oedd clywed bod myfyrwyr blwyddyn 13 yn Ysgol Brynrefail nid yn unig yn siarad yr iaith yn gymdeithasol ond hefyd yn ei ddefnyddio ar gyfryngau cymdeithasol megis Twitter a Facebook.
A'r farn gyffredinol yw nad y Cynulliad sy'n hollol gyfrifol am ddatblygu siarad yr iaith ond bod yna ddyletswydd arnom ni i ddefnyddio'r iaith ym mha gyfrwng da ni'n ei ddewis.



# Ymddeoliad Eileen Hughes

Wedi 32 o flynyddoedd yn cefnogi lluoedd o staff yn ei swydd fel Technegydd Reprograffig fe benderfynodd Mrs Eileen Hughes ymddeol ar ddiwedd tymor y Nadolig.
Bydd ei cholled yn enfawr, nid yn unig am ei gwaith caboledig ond am ei gwên barod a'i sgwrs synhwyrol. Ar ran holl ddisgyblion a staff ei 32 blynyddoedd dydi'r gair diolch ddim yn ddigon rhywsut ond fe ddymunwn yn dda iddi ym mhob elfen o'i ymddeoliad.



Eco Chwefror 2013.indd 14 28/01/2013 20:40

# “Y byd i’n disgyblion a disgyblion i’n byd”



## Parti Pendalar

Trwy drefniadau, dygnwch a gwaith trylwyr Elin Tomos, Beth Gaffey ac Erin Ynyr a llwyth mawr o gefnogwyr fe gafwyd parti llwyddiannus dros ben i ddisgyblion a staff Ysgol Pendalar ar ddiwedd tymor y Nadolig.
Bu disgo yn y Neuadd a dawnsio i s□n Gwilym Rhys, Gethin Griffiths a Huw Owen. Bu bwyd godidog wedi ei baratoi gan lwyth o helpwyr rhy faith i’w henwi. A do fe ddaeth y dyn coch ag anrheg ar gyfer pob disgybl.
Ond ni fyddai dim yn bosib heb gefnogaeth cymuned a dalgylch Brynrefail.
Yn unigolion, yn gwmnïau mawr a bach, yn gymdeithasau fe gyfrannodd y dalgylch swm sylweddol o arian i sicrhau bod y parti mor llwyddiannus ac arfer.
Diolch o galon i bawb gyfrannodd





## Plygu’r Eco

Prif eneth – peth dryswch!!
Ti fod i blygu Gwen bach, nid darllen!!



## Busnes a Dirwasgiad

Fe groesawyd Dr Sara Parry, o Brifysgol Bangor i’r ysgol yn ddiweddar i draddodi darlith ar fyd busnes a’r dirwasgiad fel rhan o’u gwaith Bac.
Darlith go iawn oedd hi gyda disgwyl i fyfyrwyr blwyddyn 12 gymryd nodiadau fel petaent yn y brifysgol. Yr oedd cyflwyniad Dr Sara yn ddiddorol dros ben - yn olrhain hanes yr economi a dangos gyda graffiau sut oedd yr economi wedi crebachu’n ddiweddar.
Aeth ati i egluro hanes y banciau fel ‘Northern Rock’ yn gorfod dibynnu ar gyllid gan y Llywodraeth a chwmnïau megis ‘Comet’ sydd wedi methu oherwydd eu dyledion mawr.
Ac yn y diwedd, cyn iddi gael cymeradwyaeth gynnes, fe roddodd y sialens i’r myfyrwyr greu busnes. Cafwyd syniadau amrywiol – o goginio bisgedi a’u gwerthu i siopau lleol i werthu donughts i bobl mewn ‘traffic jam’!!



## Hawl i Holi

Ar ddydd Gwener, Rhagfyr 7fed, roedd y llyfrgell dan ei sang gyda myfyrwyr blwyddyn 12 mewn sesiwn ‘Hawl i Holi’ gyda gwleidyddion lleol. Roedd y cwbl dan ofal y cadeiryddion, Elin Tomos a Beth Gaffey. Wynebodd llu o wleidyddwyr lleol gwestiynau gan y disgyblion ar themâu amrywiol.
Canmolwyd Aled Roberts, Alun Ffred Jones, Guto Bebb a Sion Wyn Jones gan y myfyrwyr, nid yn unig am ansawdd yr atebion ac am eu hiwmor parod ond am eu gallu i lunio atebion sydyn at gwestiynau na welwyd o flaen llaw.
Holwyd hwy am eu rhesymau personol dros ddewis gwleidyddiaeth fel gyrfa ac am y gwahaniaeth mae gwleidyddiaeth yn ei wneud i fywydau pobl. Bu trafod a dadlau brwd a difyr a gwerthfawrogwyd eu cyfraniad yn fawr gan y gynulleidfa.
Ar ddiwedd y sesiwn cafwyd canmoliaeth i’r digwyddiad gan y gwleidyddion a Caryl Williams, Swyddog Addysg y Cynulliad, gan ddweud mai dyma oedd un o’r sesiynau holi gorau iddi weld! Gobeithio bod y bobl ifanc wedi cael eu hysbrydoli i ymddiddori mewn gwleidyddiaeth gan feddwl,’Dydy gwleidyddiaeth ddim yn ddiflas a pha wahaniaeth alla i wneud i fywydau pobl?’



Eco Chwefror 2013.indd 15
28/01/2013 20:40

# Gwireddu breuddwyd: ymweliad â Zambia.





**Mannon Williams o Gwm y Glo yn adrodd hanes ei phrofiadau yn Zambia ar ymweliad yno yn ystod y llynedd.**

Blwyddyn go arbennig oedd 2012 i mi; blwyddyn pan gefais gyfle i wireddu breuddwyd oedd gen i ers pan yn fy arddegau. Nôl yn yr wythdegau, fy mwriad oedd mynd i Affrica i wneud gwaith gwirfoddol – cyn mynd i'r coleg. Ond y peth callaf i'w wneud oedd gadael yr ysgol, graddio a dilyn gyrfa. Ac felly y bu…

Ond yng Ngorffennaf y llynedd cefais y fraint, gyda dwy athrawes arall o Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon, i fynd a deunaw o ddisgyblion chweched dosbarth yr ysgol i Zambia. Mae gan yr ysgol gysylltiadau uniongyrchol gydag Ysgol Itala yn Mkushi ers dros ddeng mlynedd bellach. Sefydlodd dau o gyn-athrawon yr ysgol – Tony Foster ac Adam Williams – yr elusen Itala Foundation, sydd yn cefnogi'r ysgol.

Ar ôl hedfan am dros 11 awr o Fanceinion, cyrraedd Lusaka, prifddinas Zambia i groeso cynnes gan Albert Mwnwasa, rheolwr yr ysgol. Bu'n gweithio gyda Tony ac Adam o'r cychwyn cyntaf i sefydlu a chynnal yr ysgol. Cawsom noson dda o gwsg mewn gwersyll ar gyrion y brifddinas cyn codi'n gynnar i fynd am yr ysgol y diwrnod canlynol. Roedd yn siwrnai faith, ond yn agoriad llygad, gan fod tlodi i'w weld o'n cwmpas ymhobman.

Wna'i byth anghofio'r croeso a gawsom wrth gyrraedd pentref Mkushi: roedd degau o blant ar ochr y ffordd yn ein cofleidio; pawb â gwên ar ei wyneb, ac yn ein hebrwng i'r ysgol.

LLUN: Plant croesawgar Mkushi.

Roeddem yn cysgu mewn cytiau bach crynion wedi eu hadeiladu o frics pridd gyda tho gwellt sylfaenol iawn, ond digonol – yn enwedig y cyfleusterau ty bach!

Doeddem ni ddim ar wyliau yn ystod ein hymweliad, ond yno i weithio. Ar y dydd Sadwrn cyntaf aethom ati'n ddygn i beintio pedair ystafell o'r tu mewn i'r ysgol, a rhoi côt lân o baent ar y tu allan hefyd. Roedd un o'r athrawon, Sioned Glyn, yn athrawes gelf, ac felly aethpwyd ati i gynllunio a pheintio murluniau hyfryd ar waliau pob ystafell.

Ar y Sul aethom i'r Eglwys leol erbyn hanner awr wedi wyth y bore, lle roedd oddeutu tri chant o bobl yn disgwyl gyda chroeso cynnes a chanu Gospel gwefreiddiol. Roeddem ni'r merched wedi gwneud ymdrech i wisgo'r 'chitenge' traddodiadol, sef dwy fetr o ddefnydd lliwgar – lliwiau Zambia fel arfer. Mae disgwyl i'r genethod ei wisgo o'r amser maent yn cyrraedd eu harddegau. Mae'n cael ei wisgo i gario babanod a phlant ifanc gan y mamau a'r chwiorydd hynaf. Mae gwisgo chitenge yn dangos parch a rhaid ei wisgo i fynd i'r eglwys. Cawsom ein chitenge yn anrheg gan ferch hynaf Albert ar gyfer mynychu'r gwasanaeth eglwysig. Mae ei gael yn anrheg yn arwydd o barch mawr yn Zambia.

Cafodd ein disgyblion y cyfle i hyfforddi disgyblion yr ysgol mewn mathemateg, Saesneg a gwyddoniaeth ar y dydd Llun. Roedd y dosbarthiadau yn anferth, gyda tua 70 o ddisgyblion eiddgar ym mhob un! Mae'r ysgol yn cychwyn am hanner awr wedi saith y bore, ac mae'r holl ddisgyblion yn awyddus i ddysgu gan fod addysg mor werthfawr, ac yn golygu dyfodol gwell. Mae llawer o'r disgyblion yma yn blant amddifad oherwydd lefelau uchel HIV, Aids a malaria yn y wlad.

Fin nos cynhaliwyd gêm beldroed rhwng Cymru a Zambia. Roedd criw Ysgol Syr Hugh ar y blaen o dair gôl i ddim ar hanner amser, ond daeth y tim lleol yn ôl i ennill o bedair gôl i dair ar y chwiban olaf. (Ond rhaid cyfaddef fod ganddynt tua 40 aelod yn nhim Ysgol Itala yn erbyn deunaw erbyn hynny!).

Ar ein diwrnod olaf cawsom gyfle i ymlacio ac ymweld â hen farchnad Mkushi a'r clinic lleol. Drannoeth roedd yn anodd iawn gadael yr ysgol a ffarwelio â'n ffrindiau arbennig. Fel roedd y bws yn gadael, roedd pawb yn teimlo'n drist, ac yn dymuno gallu gwneud mwy i helpu'r plant.

Cawsom noson arall yn y gwersyll ger Lusaka cyn teithio i dref Livingstone; taith o tua saith awr i'r de. Mae Livingstone yn dref fendigedig, wedi ei henwi ar ôl Dr David Livingstone. Oddi yno cawsom ymweld â Rhaeadr Victoria: golygfa anhygoel, a'r swn a gynhyrchir gan y dwr yn fyddarol.

Treuliwyd gweddill yr ymweliad yn teithio, ac yn Botswana, cael y profiad anhygoel o dri math o safari: safari afon, safari tir a safari ar droed. Roedd y cyfan yn brofiad bythgofiadwy; yn enwedig y cysgu allan mewn pabell yng nghanol y bywyd gwyllt, a chlywed yr eliffantod a'r llewod yn rhuo yn ystod y nos.

Buaswn yn argymell i unrhyw un fynd i Affrica: mae'r bobl a'r wlad yn anhygoel. Cefais fy rhybuddio cyn mynd y byddai tynfa i ddychwelyd. Wedi cyrraedd yn ôl i Gymru ac ail-gychwyn yn yr ysgol ym mis Medi, sylweddolais fy mod yn freintiedig iawn o gymharu â'r rhai yn Mkushi.

Mae'n hanfodol codi mwy o ymwybyddiaeth am Ysgol Itala a'i disgyblion, ac mae Ysgol Syr Hugh yn parhau i godi arian yn rheolaidd; ond mae angen mwy.

Ddiwedd y flwyddyn daeth y newyddion trist fod rheolwr Ysgol Itala, Albert Mwnwasa wedi marw o niwmonia yn ystod mis Tachwedd, ac yntau'n ddim ond 48 oed. Gadawodd weddw a chwech o blant.





Mae mwy o fanylion am yr elusen sy'n helpu i gynnal Ysgol Itala i'w gael ar wefan www.italafoundation.com



Eco Chwefror 2013.indd 16 28/01/2013 20:40

# Ymateb Cyngor Gwynedd i'r Cyfrifiad

Yn ôl ffigyrau'r cyfrifiad a gyhoeddwyd ar 11/12/12, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd wedi gostwng o 77,846 i 77,000 rhwng 2001 a 2011. Mae'r gostyngiad hwn o 846 o unigolion yn gyfystyr a gostyngiad o 1.1% yn nifer siaradwyr Cymraeg yn y sir.

Rhwng 2001 a 2011, gwelwyd cynnydd o oddeutu 5,000 ym mhoblogaeth y sir - sef cynnydd o 4.4%. O ystyried y cynnydd hwn yn y boblogaeth, mae'r ganran o bobl Gwynedd sy'n siarad Cymraeg wedi gostwng o 69% i 65.4%.

Dywedodd Arweinydd Cyngor Gwynedd, y Cynghorydd Dyfed Edwards:

'Ers adrefnu llywodraeth leol yn 1996, mae Cyngor Gwynedd wedi bod ar flaen y gad yn cefnogi a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel iaith y gymuned, iaith yr ysgol ac iaith gwaith yn y sir.

'Heb os, mae polisïau arloesol y Cyngor wedi cyfrannu'n sylweddol at y ffaith fod Gwynedd yn parhau i fod yn un o brif gadarnleoedd y Gymraeg a'n bod wedi llwyddo i osgoi'r gwymp sylweddol a welir yn rhai o ardaloedd eraill lle mae'r Gymraeg wedi bod yn brif iaith tan yn ddiweddar.

'Wrth gwrs, mae ystadegau'r cyfrifiad yn fater o bryder ac yn cadarnhau ein bod fel Cyngor angen parhau a dwysau'r gwaith cadarnhaol a blaengar sydd yn digwydd ar lawr gwlad ar draws Gwynedd mewn partneriaeth gyda chymunedau lleol.

'Os ydym o ddifrif am greu'r amodau fydd yn galluogi'r iaith i ffynnu yn y sir dros y degawd i ddod, byddwn hefyd yn edrych am arweiniad cenedlaethol cadarn a chreadigol gan Lywodraeth Cymru mewn meysydd megis polisïau cynllunio a thai.

'Bydd y Cyngor rŵan yn bwrw ati i gymharu ystadegau cychwynnol y cyfrifiad gyda'r data a'r wybodaeth yr ydym wedi ei gasglu am y Gymraeg dros y blynyddoedd. Yn amlwg, bydd rhaid disgwyl tan ddiwedd mis Ionawr 2013 am yr ystadegau manwl fesul ward Cyngor cyn y gallwn ddehongli arwyddocâd lleol y canlyniadau hyn.'

Ychwanegodd y Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd sydd â chyfrifoldeb am yr iaith Gymraeg:

'Mae Cyngor Gwynedd yn cael ei gydnabod ar y lefel genedlaethol am ein gwaith arloesol yn y maes o hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ac am gynnal cyfundrefn addysg flaengar sy'n creu siaradwyr Cymraeg newydd.

'Y Gymraeg yw iaith fewnol y Cyngor, rydym yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y maes addysg blynyddoedd cynnar, trwy weithgareddau hamdden a chwaraeon, wrth gydweithio gyda'r sector fusnes lleol a thrwy ein cynlluniau datblygu economaidd.'

Yn ogystal, yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae strategaeth Hunaniaith Gwynedd wedi datblygu nifer o gynlluniau megis:

Siarter Iaith Ysgolion Gwynedd
Blas ar Gymru - Cynllun Canolfannau Iaith Gwynedd
Pencampwyr Iaith Canolfannau Hamdden Gwynedd
Cynllun Cyfieithu Cymunedol
Gweithredu'n Lleol – Fframwaith i arfogi cymunedau i ddeall sefyllfa'r Gymraeg yn lleol
Academi Datblygu Sgiliau Cymraeg i Reolwyr y sector cyhoeddus

# Un funud fach ...

**LES MISERABLES**

Nid fo oedd y canwr gorau o bell ffordd, mae'n debyg. Mae'n rhaid bod hynny'n wir, gan fy mod i hyd yn oed wedi sylwi ar y peth. Ond doedd fawr o ots am hynny chwaith gan fod portread Russell Crowe o'r plismon, Javert, mor gadarn yn y ffilm newydd a seiliwyd ar y sioe gerdd lwyddiannus, Les Miserables.

Os yw'r stori'n gyfarwydd i chi, fe wyddoch mai gwarchodwr y Gyfraith yw Javert sy'n gwneud ei orau glas am flynyddoedd lawer i ddal cyn-droseddwr o'r enw Jean Valjean. Mae'n benderfynol o ddwyn Valjean gerbron ei well, a'i gosbi, gan fod cadw'r Gyfraith a gweinyddu cyfiawnder yn golygu popeth iddo. Ynddo'i hun, mae hynny'n beth digon clodwiw, wrth gwrs, gan fod i gyfraith, a pharch at gyfraith, le pwysig o fewn unrhyw gymdeithas wâr. Ac mae gweinyddu cyfiawnder, a dwyn pobl i gyfrif am dorri'r gyfraith, yr un mor hanfodol er lles y gymdeithas honno. I Javert, felly, dyna'r peth pwysicaf oll, ac ni all unrhyw beth ymyrryd â'r angen i gosbi'r drwgweithredwr.

Ond wrth wraidd stori Valjean mae'r syniad o faddeuant a dderbyniodd am ei drosedd a'r cyfle a roddwyd iddo i ddechrau byw o'r newydd yn rhyddid y maddeuant hwnnw. Mae'r bywyd newydd hwn yn fywyd o dosturi a chariad a maddeuant i eraill. Ond mae'r fath syniad yn wrthun i Javert: ni all ei ddeall; ni all wneud synnwyr ohono; ni all ymateb iddo; ac ni all ei dderbyn. Cyfiawnder a chosb yw'r cyfan i ddyn y Gyfraith; ac mae rhwystredigaeth a gofid Javert yn dyfnhau wrth iddo fethu ymateb o gwbl i'r tosturi a'r maddeuant a ddangosir.

Mae'r ffilm yn werth ei gweld, ac mae'n sicr o wneud rhai o themâu canolog y Ffydd Gristnogol – megis cariad, maddeuant a gras – yn destun sgwrs a thrafod i lawer a fydd yn ei gweld. Mae'n llwyddo i ddangos rhyfeddod maddeuant, a grym maddeuant i gymell pobl i fyw yn well mewn diolchgarwch amdano. Onid ymateb mewn ffydd i faddeuant Duw a wnaiff pob Cristion? Ac mae'r ffilm hefyd yn dangos trueni'r sawl na all ddeall, na derbyn na chynnig y maddeuant hwnnw i eraill.

JOHN PRITCHARD


ARVONIA



• Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
• Rhaglen Tripiau Dyddiol.
• Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
• Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer llogi preifat.
• Adran teithiau grwp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud : archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA
Ffôn: 01286 675175 • Ffacs: 01286 671126
E-bost: info@arvonia.co.uk • Gwefan: www.arvonia.co.uk

Caffi Caban
ar Agor
9 y bore tan 4 y pnawn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

caban cyf

ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwyr

WAVELL'S
Bryn ac Angela Williams
London House, LLANRUG
Ffôn:
(01286) 673574
PEN CIGYDDION Y FRO
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!




Eco Chwefror 2013.indd 17 28/01/2013 20:40

# WAUNFAWR Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

**Gwasanaethau'r Nadolig** Cafwyd dau gyfarfod Nadolig yn Eglwys y Waun. Aelodau'r Clwb Sul, gyda'u hathrawon gymerodd y gwasanaeth fore Sul, 23 Rhagfyr, a diolchwyd iddynt am ddrama fach a naws gwahanol iddi i gyfleu stori'r geni gan Mrs Pat Parry. Noswyl y Nadolig cafwyd gwasanaeth o ganu carolau a darlleniadau Nadoligaidd gan oedolion yr eglwys. Mr Alun Elis ddiolchodd iddynt ac i Mererid am drefnu. Diolchodd Mrs Catherine Jones i Mrs Gwenda Griffith am gyfeilio yn y ddau gyfarfod.
Anfonwyd dymuniadau da am wellhad i Mrs Gwenda Richards, i Mrs Kitty Roberts (Bryn Teg gynt) a fu yn yr ysbyty dros Ŵyl y Nadolig, at Mrs Betty Griffith, Gorffwysfa a oedd yn Ysbyty Eryri, ac at bob un o'r pentref a oedd yn sâl dros yr Ŵyl.
Cynhaliwyd Gwasanaeth dwyieithog yn Eglwys Betws Garmon hefyd, yn anffodus roedd yn cael ei gynnal yr un amser ag Eglwys y Waun, ond roedd cynulleidfa dda yno hefyd.
Eleni eto rhaid diolch i'r rhai fu'n brysur yn addurno coed a llwyni a ffenestri eu cartrefi gan sirioli'r pentref a rhoi naws Nadoligaidd i'r Waun.

**Genedigaethau** Ychydig ddyddiau wedi diwrnod y Nadolig bendithiwyd dau deulu o'r pentref â genedigaeth baban bach.
Merch fach, Lois, a anwyd i Alison a Steve, Tŷ yr Efail, wyres i Roslaind ac Emrys, Bryn Môr (yr Efail).
Merch hefyd, Nan Grug, a anwyd i Carys a Dewi, Nant y Mynydd, chwaer a ffrind fach i Ena. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau deulu a chroeso i'r babanod.

**Croeso yn Ôl** Mewn pryd i ddathliadau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd daeth Mark Owen, Cil y Mynydd adref yn ôl wedi treulio hanner blwyddyn yn Seland Newydd yn arsylwi a phrofi gwaith ar ffermydd y wlad honno.

**Dymuno yn Dda** Dyna'n dymuniad i Kevin Davies, Hafan, sydd wedi penderfynu mynd i Seland Newydd i weithio yn y gwaith ail-adeiladu ac atgyweirio adeiladau yn Christchurch wedi'r daeargryn. Bydd yn hedfan yno ar 5 Chwefror.

**Croeso Adref o'r Ysbyty** Wedi iddo orfod treulio cyfnod yn Ysbytai Gobowen ac Eryri, mae Dr Williams wedi cael dod adref i Tros-y-Gors.
Wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Broad Green, Lerpwl, mae Mrs Glenys Williams wedi cael dod adref i Ty'n y Weirglodd.
Hefyd bu Mrs Jeni Jones, Glyn Ceris; Mrs Maureen Hughes, Bryn Peris; a Mr Gary Jones, 6 Dôl Erddi yn yr ysbyty am gyfnod.
Croeso adref i bob un ohonoch a hyderwn yn fawr y byddwch yn cryfhau a gwella bob dydd.

**Yn Gwella** Mae'n dda cael dweud bod Carwyn Lowe, Ger-y-Ffynnon, yn gwella wedi ei anffawd ychydig ddyddiau cyn y Nadolig.
Hefyd mae Mrs Rose Ann Hughes, Stad Tref Eilian, yn gwella wedi iddi ddisgyn a brifo ei phen tra'n aros gyda'i merch, Helen, a'i theulu yn Bolton.
Anfonwn ein cofion cynnes at Mrs Sara Lewis, Stad Tref Eilian gynt, wedi iddi dreulio cyfnod yn Ysbyty Eryri. Mae wedi ymgartrefu yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun.

**Dyweddïo** Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Lesley, 4 Stad Bryn Golau, ar ei dyweddiad â Wayne o Gaernarfon.
Mae mis cyntaf y flwyddyn bron â dod i ben, dymunwn flwyddyn hapus ichi.

**Tywydd Mawr** Cafodd yr eira a ddisgynnodd dros y Waun dipyn o effaith ar fywyd y pentref. Caewyd yr ysgol, yr Antur, y garej, gwasanaeth y capel fore Sul a doedd dim gwasanaeth bysiau. Ond roedd un gwahaniaeth mawr, sef y nifer o drigolion oedd yn cerdded am dro a llawer un yn helpu y rhai oedd angen. Roedd yma awyrgylch braf iawn.

**Clwb 300** Enillwyr y Clwb am fis Rhagfyr oedd: £30: Mrs Rhian Ellis, Ty'n Llidiart; £20: Mr Alfie Jones, Hafod y Rhug; £10: Dr H.L. Roberts, Culfor, Ffordd Bangor, Caernarfon.


**Diolch** Dymuna Nia Griffith, Dolydd, 3 Stad Tŷ Hen, ddiolch i'w theulu a ffrindiau am y galwadau, negeseuon ac ymweliadau yn dilyn ei llawdriniaeth ddiweddar.

**Dymuna** John ac Irene, Pant Teg, ddiolch o galon i'w teulu a ffrindiau o bell ac agos am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar ddathlu pen-blwydd eu Priodas Ruddem.

**Merched y Wawr** 'Y Traddodiad o Ganu Plygain' fydd teitl cyflwyniad y canwr gwerin, Arfon Gwilym, yn ein cyfarfod ar nos Iau, 31 Ionawr am 7.30 o'r gloch. Penderfynodd y pwyllgor wneud y cyfarfod yma yn agored i bawb – yn feibion a merched, yn hen ac ifanc. Felly, dowch yn llu a chewch baned a sgwrs ar ddiwedd y noson.



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Arfon
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor
Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

BWYD ANIFEILIAID
BOCM • PAULS

GWAIR GWELLT
A HAYLAGE
ROBERTS
HENDY PONTLLYFNI
CAERNARFON LL54 5EF
Ffôn 07748692100 • (01286) 660254

Cefnogwch ein hysbysebwyr


Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor
Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk




Eco Chwefror 2013.indd 18 28/01/2013 20:40

### EUNICE JONES

Bu farw Eunice Jones, 67 Maes Padarn, yn sydyn yn ei chartref ar y diwrnod olaf o'r flwyddyn. Ganed Eunice ym mis Ebrill 1939, ychydig fisoedd cyn cychwyn yr Ail Ryfel Byd. Hi oedd yr ieuengaf o dri o blant Sion a Dilys Roberts, Dakota, Stryd Olgra.

Treuliodd ei holl oes yn y pentref. Wedi gadael yr ysgol cychwynnodd ar ei swydd gyntaf gyda hen gwmni'r Crosville yng Nghaernarfon, ble roedd yn trefnu gwahanol amserlenni i fysus bach y wlad. Gweithiodd am gyfnod gyda Clogwyn Climbing Gear, cyn gorffen ei gyrfa fel derbyn-wraig yn Meddygfa Llanberis.

Mynychodd gapel Nant Padarn yn ffyddlon gyda'i ddiweddar frawd, Eric ,a'i chwaer, Betty, yn gynnar yn ei hoes, gan gymryd rhan lawn yn holl weithgareddau'r capel yng nghanol prysurdeb a thraddodiad cyfnod prysur y chwarel.

Wedi cyfarfod a phriodi ei hannwyl Dewi fe ymgartrefon yn Dakota, Stryd Olgra ple ganwyd iddynt ddau o blant, sef Paul a Judith.

Daeth ergyd front i'w rhan gyda marwolaeth Dewi, ei chariad oes, bron 30 mlynedd yn ôl. Brwydrodd ymlaen a daeth balchder mawr i'w rhan gyda genedigaethau ei wyrion, Daniel, Dafydd ac Angharad. Y nhw oedd cannwyll ei llygaid a mawr oedd ei gofal a'i phryder amdanynt.

**Dymuna** Judith a Paul a'r teulu oll ddiolch o galon i bawb sydd wedi galw ac anfon atynt ac am yr holl negeseuon a'r geiriau o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn dilyn eu profedigaeth fawr o golli mam a nain annwyl iawn.

**Diolch** hefyd am yr holl gyfraniadau a roddwyd er cof am Eunice tuag at Gymdeithas y Deillion. Diolch i swyddogion Capel Coch ac i'r Parchedig John Pritchard am ei wasanaeth angladdol teimladwy ac i Gwynfor Jones yr Ymgymerwr Angladdau am ei garedigrwydd a'i wasanaeth trylwyr.

**Diolch** Dymuna Annie Wilson Evans (Nan Nan), Plas Pengwaith, ddiolch am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd dros gyfnod y Nadolig.

Hoffai ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu a'i holl ffrindiau.

**Diolch** Dymuna Mrs Nancy Jones, Bryn Bella, 21 Newton Street, Llanberis, ddiolch am y llu o gardiau a gafodd ar ei Phen Blwydd yn 90. Diolch i deulu agos a phell, ac i gymdogion a chyfeillion. Diolch i Heather Lyn Jones am wneud y deisen, oedd wedi ei haddurno yn berffaith. Diolch i Delyth, Davinia a Kelly (Caredig) am bob gofal. Diolch hefyd i'r Barchedig Dr Carol Roberts, a Mr Derek Jones am bob dim.

**Diolch** Dymuna Kathleen Williams, 1 Glanrafon, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r rhoddion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 90 oed.

**Diolch** Dymuna Delyth Hughes,6 Fron Goch, ddiolch yn fawr iawn i'w phlant, teulu a ffrindiau am yr anrhegion, blodau, cardiau a galwadau ffôn ar phen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

**Côr Meibion** Fel sy'n digwydd bob blwyddyn, roedd yr amser yn arwain i fyny i'r Nadolig yn un prysur iawn i'r Côr. Cafwyd cyngerdd yng Nghapel Seilo, Caernarfon, ar y 3ydd o Ragfyr, ymweliad â'r ddau Gartref Henoed ar yr 17eg, a chyngerdd llwyddiannus iawn yn Y Mynydd Gwefru ar yr 16eg, gyda Seindorf Arian Deiniolen, Osian Trefor (Unawd Cerdd) a Tomos Parry (Unawd Piano) yn cymryd rhan. Casglwyd £212 tuag at Yr Ambiwlans Awyr yn ystod y cyngerdd yn y Mynydd Gwefru, diolch i bawb a oedd yn bresennol.


**Y Gymdeithas Undebol** Cafwyd cyfarfod Nadoligaidd bendithiol iawn o ddarlleniadau a chanu carolau o dan arweiniad y Parch John Pritchard ar yr 11eg o Ragfyr, diolch yn fawr iawn iddo. Mrs Lowri Prys Roberts-Williams oedd yr organydd, diolch o galon iddi hithau am lenwi'r bwlch ar fyr rybudd. Cafwyd lluniaeth ysgafn, wedi ei baratoi gan rai o'r aelodau. Diolchwyd i bawb gan Mr John Huw Hughes. Gwnaed casgliad o £50 tuag at apêl Guatemala.

Nos Fawrth, Ionawr yr 8fed, cynhaliwyd cwis o dan ofal y Parch John Pritchard, cafwyd noson braf a hwyliog. Diolch i Mr Pritchard am drefnu'r cwestiynau ar fyr rybudd (mis nesaf oedd y cwis i fod). Oherwydd gwaeledd, ni allodd y gŵr gwadd, Mr Len Williams, fod yn bresennol. Dymunwn yn dda i Mr Williams a boed iddo gael adferiad llwyr a buan. Cafwyd paned a sgwrs ar ddiwedd y noson.

Nos Fawrth, Chwefror y 12fed, bydd Mr Eifion Roberts yn rhoi sgwrs, ynghyd â lluniau, ar ffotograffydd enwog y Cymro, y diweddar Geoff Charles. Diolch iddo yntau am lenwi bwlch.








Blodau Racca

(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: 870605

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd Compost ar werth

RHODD O'R GALON YW BLODAU



## 'Capel Got Talent'



*Y cystadleuwyr, y trefnwyr a'r beirniad.*

Syniad bechgyn ifanc dosbarth hynaf yr Ysgol Sul unedig yng Nghapel Coch, Llanberis oedd cynnal 'Capel Got Talent' er mwyn codi arian at Apêl Guatemala Eglwys Bresbyteraidd Cymru a Chymorth Cristnogol.

Nos Wener, Ionawr 11, oedd y noson fawr, a chafwyd cynulleidfa dda i gefnogi pawb a fentrodd i'r 'llwyfan'. Cafwyd noson hynod o lwyddiannus, a chystadlu brwd.

Roedd yn noson hwyliog iawn ac 17 o eitemau amrywiol: canu, karate, dawnsio, jyglo, deud stori, gwaith crefft, y Co' Bach, triciau, troelli plât, canu piano, chwarae gitâr, sgets, dawnsio digyfeiliant, a Siôn y ci. Roedd yn braf iawn gweld cymaint o blant ac oedolion yn cymryd rhan, a phawb yn amlwg yn mwynhau gwneud hynny. Roedd yn amlwg bod y gynulleidfa wrth ei bodd.

Wrth feddwl am feirniad ar gyfer y noson, meddyliodd yr ieuenctid ar unwaith am Dafydd Iwan, ac felly roeddem yn ddiolchgar iawn iddo am ddod atom. Cafwyd sylwadau byr ganddo ar ôl pob eitem, a'r cyfan yn ganmoliaeth ac anogaeth. Gobeithio ei fod wedi mwynhau ei hun yn ein plith.

Wedi'r cystadlu, cafwyd paned a bisged, a chyfle i bobl brynu llyfrau o'r stondin a drefnwyd gan yr hogiau.

Ac yna, cafwyd yr holl gystadleuwyr a'r trefnwyr at ei gilydd i'r 'llwyfan' ar gyfer y dyfarniad. Ac er mor anodd oedd cael enillydd, gan fod pawb mor dda, a'r eitemau mor wahanol i'w gilydd, penderfyniad y beirniad oedd mai Cadi Thomas a fyddai'n derbyn y tlws am ddarllen stori yr oedd hi ei hun wedi ei hysgrifennu. Cyflwynwyd y tlws iddi gan y beirniad.

Llongyfarchiadau mawr i Cadi, a diolch yn fawr i bawb a gymerodd ran, ac i Dafydd Iwan am ei gefnogaeth. Diolch i bawb a ddaeth yno i gefnogi. A diolch, wrth gwrs, i'r trefnwyr, Aled Gwyn, Iolo, Siôn Ifan ac Aled Siôn. Gwnaed elw o £170.

Mae Ysgol Sul Capel wedi hen arfer gweithredu'n gyd-enwadol gan fod eglwys Annibynnol Nant Padarn yn rhannu adeilad ac oedfaon Capel Coch ers degawd bellach. Ond yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cawsom hefyd y fraint o groesawu plant Eglwys Sant Padarn, wedi i'n cyfeillion yno benderfynu mai gwell fyddai i blant y pentref ymuno â'i gilydd mewn un Ysgol Sul. Mae'r plant ac un o'u hathrawon wedi setlo'n arbennig o dda ac yn llawn brwdfrydedd yn ein plith, ac yr ydym ninnau mor falch o weld hynny.



*Dafydd Iwan yn cyflwyno'r tlws i Cadi Thomas.*

## Llanberis Tan Lifeiriant, Tachwedd 2012

Ni anghofir y llifogydd mawr a amharwyd ar Lanberis am amser maith. Chwyddodd yr afonydd yn sydyn gan ysgubo ymaith bopeth oedd yn eu ffyrdd gan lenwi bwa sawl pont gan gerrig, coed, mwd, suntur, a llawer i wrthrych arall. Fel bwystfil gwallgof rhuai'r Afon Goch o'r mynydd gan ddinistrio yn ddidrugaredd bopeth oedd yn ei ffordd. Tagodd Pont Huws Drygist gan chwydu'r llif budr i dai, a gwelwyd y Stryd Fawr megis rhyw gamlas a ymddangosodd yn gyflym o rywle.

Yr un oedd yr hanes i lawr y stryd yng nghyffiniau Modurdy Dylan. Ni allai'r ffosydd na'r cwterydd ymgiprys a'r holl lif. Ni ellid gwneud dim, ond edrych yn mewn syndod ar y sefyllfa gan obeithio'r gorau o'r fath gyflafan.

Yr un mor sydyn pallodd y glawio, dofwyd yr afonydd, ac yna caed gwir ddarlun o'r difrod a waned. Dinistriwyd sawl cartref a thrist oedd gweld eiddo llawer i aelwyd yn sypiau digalon yma ac acw, a chartrefi a fu'n gysurus, yn hollol anweddus i fyw ynddynt, a hynny am gyfnod hir o amser. 'Roedd Tyddyn Eilian, cartref Dylan druan tan ddŵr a hefyd ei Fodurdy, a thrist oedd sylweddoli fod cyn ddisgybl i mi yn y fath sefyllfa.

Ond bu'n arswyd i'm calon o ddeall fod y Feddygfa wedi ei difrodi ac na fyddai yn ail agor am fisoedd. Yr ydym yn ymfalchïo yn ein meddygfa, y staff rhagorol o feddygon, gweinyddesau, derbynwyr, a.y.y.b.

Pa beth fyddai ein tranc heb Cae Heti?

Ond yn fuan iawn cawsom ateb clodwiw a phendant i'n pryderon. Trefnwyd ein bod i dderbyn sylw meddygol yn y Feddygfa yn Neiniolen a hynny yn syth wedi'r llifogydd. Ar ben hyn cafwyd gwasanaeth Wennol o fysiau i hebrwng y cleifion o Lanberis i Ddeiniolen.

Mewn llai na mis caed sawl caban coed addas tros ben ar safle Cae Heti, ac erbyn hyn mae'r Feddygfa yn ymateb yn foddhaol i ofynion y cleifion. Y mae gennym le i ddiolch i holl Staff y Clinic am eu gweledigaeth a'u brwdfrydedd tros y cleifion.

Do, teimlwyd brawdoliaeth fendigedig drwy'r ardal a bu cyflwr y rhai a ddioddefodd oblegid y llif yn agos at galon sawl un. Hwyrach fod eglwysi a chapeli wedi collie u dylanwad, eto er hyn teimlaf fod cariad brawdol ar dwf yn ein cymdeithas. Diolch i Dduw am hynny.

Ydyw y mae'r hen Lanber yn araf ddod i drefn, a buan iawn y gwelir eto ragoriaethau y pentref hynod hwn wrth droed y Wyddfa.

John H Hughes

YSWIRIANT FUW

Hoffech chi hybu:

Bwyd lleol

Busnesau cefn gwlad

Economi wledig

Trwy gefnogi Yswiriant FUW?

Yswiriant car, ty neu unrhyw fusnes

Dafydd P Jones 01492 642683 Dwyrain Sir Gaernarfon

Buddsoddi yn eich cymuned

**Eisteddfod Yr Urdd 2012** Casglwyd £10130.80 yn yr ardal tuag at yr Eisteddfod yng Nglynllifon. Roedd yr ymdrechion yn ganmoladwy iawn yn yr hinsawdd ariannol i geisio cyrraedd targed o £12mil. Diolch i bawb am gyfrannu ac am waith caled aelodau'r pwyllgor. Diolch i'r Cyngor Cymuned am bob cymorth a chefnogaeth.

**Dalier sylw** – Byddwn yn ymuno â changen Bethel nos Fercher, 13 Chwefror yn Festri Capel Cysegr am 7.30 yng nghwmni'r gŵr gwadd, Gwyn Llywelyn.

Ar Fawrth 12fed, byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi gyda phryd o fwyd yn Tŷ Golchi. Enwau i Linda (673838) ynghyd â thâl o £17 erbyn Chwefror 10fed os gwelwch yn dda.

**Y Sefydliad Coffa** Enillwyr Clwb Cant Mis Rhagfyr oedd: 1. H.M. Parry, Wenllys; 2. K. Owen, 56 Bro Rhyddallt; 3. A. Parry, Bryn Heli.

**Plaid Cymru** Enillwyr Clwb Cant Rhagfyr oedd: 1. Charles Jones, Dwyros; 2.Gwenda Roberts, Hafle.

Enillwyr Ionawr oedd: 1. Rolant Wynne, Fron Hyfryd Uchaf; 2. Clifford Williams, Awelon.

**Clwb Cant y Band** Enillydd y Clwb Cant am fis Rhagfyr 2012 oedd Aled Rhys Williams (Rhif 55).

**Diolchiadau** Dymuna Twm, Sharon ac Anwen, teulu Llys Alaw, Ffordd yr Orsaf, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli gwraig, mam, nain a hen nain. Diolch hefyd i'r Parch Marcus Robinson am ei wasanaeth ar ddydd yr angladd ac i Mrs Mair Huws am ei gwasanaeth wrth yr organ. Hefyd i'r ymgymerwyr, Mr Gwynfor Jones, o E.W. Pritchard, Llanberis.

Diolch i bawb am y rhoddion ariannol o £823 sydd yn mynd at Gymdeithas Alzheimers.

**Marwolaeth** Bu farw Mrs Jean Davies, Rhyd y Delyn, Ffordd Glanmoelyn ar 26 Rhagfyr yn dawel yn Ysbyty Eryri yn 89 mlwydd oed. Fe'i magwyd yn Nantmor ac ,yn dilyn cyfnod yng y Coleg Normal Bangor, cafodd ei swydd gyntaf yn ysgol Gynradd Llandyrnog.

Wedi ei phriodas i Oswald Davies, bu iddi ymgartrefu ym Mhlas Ashpool, Llandyrnog, ac yna symud i Garffield, Lloc a Phlas Gwyn, Llanrug. Yno magwyd eu teulu, Carys, Enid, Rhian ac Eryl. Ymddeolodd i Rhyd y Delyn lle bu yn hapus am bron i ddeng mlynedd ar hugain.

Bu yn weithgar iawn mewn gweithgareddau lleol ac yn aelod ffyddlon o'r Capel Mawr ac yna Capel y Rhos. Roedd ganddi ddiddordeb mawr mewn materion a diwylliant Cymraeg a byd natur a hyd yn diweddar roedd yn hoffi teithio.

Dymuna'r teulu ddiolch i bawb am y caredigrwydd ddangoswyd tuag atynt yn ystod eu profedigaeth. Hefyd, diolch am y rhoddion ariannol tuag at Ward Padarn, Ysbyty Eryri.

Estynnwn fel ardal ein cydymdeimlad diffuant at y teulu. Bydd colled fawr iddynt a'r gymuned a'i llu ffrindiau.

**Marwolaeth** Ar 15 Rhagfyr bu farw Douglas Robert Owen, partner annwyl Ken Spiers, Tan y Coed, mab y diweddar Richard a Violet Owen, 2 Glanmoelyn a brawd Richard ac Anita. Bu yn gweithio am gyfnod hir yn Llundain cyn ymgartrefu yn ôl yn Llanrug. Cydymdeimlwn yn arw â'r teulu i gyd.

**Llongyfarchion** Pob dymuniad da a llongyfarchiadau mawr i Ffion Angharad Williams, Ty'n y Coed ar ennill gradd MA mewn hanes Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd. Daw y cyfarchion gyda chariad mawr gan Dad, Mam, Rhys ac Annabel. Da iawn.



**Gwarchod hanes y Band.**

Ers cychwyn Band Llanrug mae teuluoedd cerddorol wedi chwarae rhan amlwg yn ei ddatblygiad. Yn ystod y mis diwethaf trosglwyddwyd crair gwerthfawr i ofal y Band gan Dylan Lloyd Jones, sef siaced ei daid, y diweddar Robert John Jones. Credir fod y siaced yn dyddio o'r 1950'au cynnar, ac mai prynu'r dillad (neu'r 'iwnifforms' fel y gelwid hwynt) oddi ar un o fandiau pres Lloegr a wnaethpwyd.

Bu Robert John Jones yn aelod o Fand Llanrug am dros ddeugain mlynedd, ac yr oedd ei blant a pherthnasau eraill hefyd yn aelodau ffyddlon.

Yn y llun gwelir Dylan yn trosglwyddo'r siaced wedi ei fframio i ofal Michael Thomas.

**Babis Newydd** Llongyfarchiadau mawr i Iona ac Alun, 4 Tai Minffrwd, Tan y Coed, ar enedigaeth Guto Wyn. Pob dymuniad da i chi ac, wrth gwrs, i Taid a Nain, sef Gareth a Reene Williams, 18 Rhos Rug a theulu Sir Fôn. Dymunant ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y cyfarchion da a'r anrhegion.

Merch fach arall, Nan, a anwyd i Ceris a Dewi Roberts, chwaer fach i Ena a wyres i Myfyr a Wendy, Stad Nant y Glyn. Pob dymuniad da i chwi.

**Llongyfarchiadau mawr** i Catrin a Bryn ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, Owain Huw. Dymuniadau gorau i chi fel teulu a Taid a Nain, Hywyn a Mair Jones, a hen nain, Mrs Ceri Jones.

**Hafan Elan** Dyma flwyddyn newydd wedi dod a llawer o gynlluniau ar y gweill. Mae newidiadau yn cael eu gwneud i'r ganolfan gyda byrddau a chadeiriau newydd ar gyfer y cinio wythnosol a'r bore coffi ar ddydd Mercher. Gobeithir trefnu ambell bnawn i fynd i siopa neu'r theatr yn fuan, a bydd bws mini ar gael gan Age Concern ar ein cyfer.

Os oes diddordeb gan unrhyw berson yn y pentref i ymuno â'r clwb cinio, cysylltwch â'r Warden, Mrs Bessie Costello, neu Mair Huws ac Eryl Roberts.

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis
Ffôn: (01286) 870202
TREFNWYR ANGLADDAU

grid76
dylunio graffeg/graphic design
darlunio/illustration
animeiddio/animation
graffeg arddangos/display graphics

• Cardiau Busnes • Arwyddion
• Graffeg ar Gerbydau • Gwefanau a mwy...
Llanrug 07766956673 gwyndaf@grid76.co.uk
gwasanaeth dwyieithog llawn/fully bilingual service



Eco Chwefror 2013.indd 21 28/01/2013 20:40

# Cynghorydd Llanrug i gynrychioli trigolion Gwynedd ar banel yr Heddlu



**Mae dau Gynghorydd Plaid Cymru wedi dechrau ar eu gwaith o gynrychioli trigolion Gwynedd ar Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Y Cynghorydd lleol Charles Wyn Jones, Llanrug a Chynghorydd Abermaw, Gethin Glyn Williams yw'r ddau sy'n cynrychioli Cyngor Gwynedd ar y panel heddlu. Yr Ysgrifennydd Cartref apwyntiodd y ddau i'r rôl. Mae 10 cynghorydd o ogledd Cymru ar y panel ynghyd â dau aelod annibynnol wedi eu cyfethol i'r swyddi.**

Dyw gwaith yr heddlu ddim yn ddieithr i'r Cynghorydd Charles Wyn Jones oherwydd iddo fod yn aelod o Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru am naw mlynedd cyn i'r awdurdod ddod i ben yn ddiweddar. Bydd ei brofiad a'i ddealltwriaeth o waith yr heddlu, yn sicr o fod yn fantais iddo yn y swydd newydd.

"Mae hi'n fraint ac yn anrhydedd i gynrychioli trigolion Gwynedd ar Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru," eglura'r Cynghorydd. "Ein gwaith fydd monitro perfformiad y Comisiynydd Heddlu newydd a chynnig arweiniad a chyngor i'r Comisiynydd wrth osod y taliad blynyddol i drethdalwyr am wasanaeth heddlu'r gogledd. Mae'r drefn yma o lywodraethu gwasanaeth yr heddlu yn gwbl newydd yma yng Nghymru, ac er ei bod hi'n ddyddiau cynnar i'r gwaith, dwi'n edrych ymlaen i symud i'r cyfnod newydd yma o fewn y gwasanaeth.

"Mae hi'n gyfnod heriol i blismona ledled Cymru, yn arbennig wrth i'r pwrs cyhoeddus wasgu. Mae'r cyfarfodydd cyntaf wedi bod yn llawn gwybodaeth ac rydym wedi cael cyfle i glywed am y sefyllfa ariannol bresennol, y cynlluniau ariannol a'r blaenoriaethau o fewn Heddlu Gogledd Cymru. Dwi'n mawr obeithio y gallaf, gyda'm cyd-gynghorwyr, gyflawni ein dyletswyddau i sicrhau bod Comisiynydd Heddlu'r Gogledd yn ymgymryd â'i waith a'i gyfrifoldebau er lles pobl a chymunedau gogledd Cymru."

## MERCHED Y WAWR

Merched y Wawr Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Llywydd, Mair Huws, a dymunwyd Blwyddyn Newydd Fendithiol yn 2013. Cychwynnwyd gyda Chân y Mudiad. Cynhelir Bowlio Deg y Rhanbarth nos Wener, 1 Chwefror, a diolchir i'r rhai fydd yn cymryd rhan gan obeithio y cânt noson lwyddiannus. Atgoffir pawb o weithgaredd y Mudiad tuag at Gymorth Cristnogol yn Eisteddfod Dinbych eleni. Wedi llwyddiant ysgubol elusen Achub y Plant yn casglu a gwerthu esgidiau ddwy flynedd yn ôl, bydd y Mudiad yn casglu bagiau o bob math eleni. Gellir dod â'r bagiau i'r cyfarfodydd misol ac yna fe'u trosglwyddir i'r Pwyllgor Rhanbarth.
Derbyniwyd cais gan gangen Urdd Deiniolen ar i Ferched y Wawr Llanrug gymryd gofal o'r lluniaeth yn Eisteddfod Cylch Arfon yn Ysgol Brynrefail. Cytunwyd i wneud hynny ac erfynnir am fwy o wirfoddolwyr eleni gan fod rhai adegau o'r bore yn gallu bod yn brysur iawn.
Cynhelir Gŵyl y Pum Rhanbarth ddydd Sadwrn, 11 Mai, yn Ysgol Friars, enwau rhag-blaen os gwelwch yn dda.
Estynnwyd croeso cynnes i Ffion Williams atom i'n helpu i gael gwared â'r floneg wedi'r Nadolig, gyda symudiadau hamddenol Swmba. Roedd y mwyafrif o'r aelodau yn amlwg wedi mwynhau'r symudiadau ac wedi'r sesiwn roedd rhai yn awyddus i gychwyn dosbarth wythnosol. Diolchwyd i Ffion am noson hynod o effeithiol a diddorol.
Tynnwyd y raffl a'r enillydd lwcus oedd Iris Rees Jones. Diolchwyd i Meirwen Mair ac Olwen am y baned.

**Capel y Rhos Ar y nos Iau cyn y Nadolig, cafwyd gwasanaeth gan blant a phobl ifanc yr Ysgol Sul. Cafwyd gwasanaeth bendithiol iawn yn eu cwmni a diolch i bawb gymerodd ran. Gwnaed casgliad o dros £100 tuag at Apêl Guatemala.**

**Oedfaon mis Chwefror**

| | |
|---|---|
| Chwefror 3 - | Y Parch. Marcus Wyn Robinson ( gweinidog) |
| Chwefror 10 - | Y Parch. Harri Owain Jones |
| Chwefror 17 - | Y Parch. Marcus Wyn Robinson |
| Chwefror 20 - | Mr. T Alun Williams |

## Cefnogwch ein hysbysebwyr

DODREFN PERKINS
(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON
Ffôn: (01286) 676 040
• Pob math o ddodrefn tŷ
• Cegin, 'stafell fyw, lloft
• Prisiau cystadleuol
• Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

GAREJ CERIS JONES
Trwsio ceir a faniau Gwaith MOT Mecanic profiadol iawn Prisiau cystadleuol
Llanrug 01286 677362 07979620996

J2O
Gwasanaeth Gwres a Plymio
Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718



Eco Chwefror 2013.indd 22 28/01/2013 20:40

## ECO'r Wyddfa

# O'r Cynghorau

### Cyngor Llanddeiniolen

Crynodeb o gofnodion yr 8ed o Ionawr.
Gweddi. Offrymwyd y weddi agoriadol gan Richard Ll. Jones a chyflwynodd hefyd yr englyn canlynol:

Gwyneb (Plwyf Llanddeiniolen)
Moel ei hwyneb ers milenia – y graig
fu'n groen storm neu hindda.
Haenau ddoe roes lechen dda
i'w hiaith, fel hi daw creithia.

Materion o gofnodion Rhagfyr
Rhiwlas - goleuadau yr arwydd 30mya, dywedodd Hefin Williams bod rhain yn dal yn ddiffygiol – llythyr eto i Wynedd.
Penisa'rwaun –cyfeiriodd Aled Green at y diffygion yn ffordd Winllan a bod y gwaith angenrheidiol ar raglen yr Adran Briffyrdd.
Carthffosiaeth. Cyfeiriwyd eto at y bwriad i bibellu carthffosiaeth Llanberis i Frynrefail. Nid yw afon Seiont yn cael ei glanhau fel a wnaed yn y gorffennol, felly mae'r llif yn cael ei ddal yn ôl – llythyr eto i'r Bwrdd Dŵr.
Blwch postio Tan Gaer. Derbyniwyd copiau o ohebiaeth eto rhwng Dafydd Guto Ifan a'r Post Brenhinol a phenderfynwyd gofyn unwaith yr rhagor i'r Swyddfa yn Llandegai pryd yr ail-osodir y blwch.
Materion Ffyrdd – Ateb Mr Meirion Williams, Adran Priffyrdd Gwynedd:
1. torri tyfiant wrth ochr ffordd Winllan a Crawiau – eu ymgymerwyr wedi cwblhau'r gwaith.
2. tyllau ger yr hen Gapel, Bryn Parc, Pont Injan a tai Orwig – wedi ymdrin â phob un o'r safleoedd.
3. Wyneb ffordd Glasgoed – y gwaith trwsio dros dro wedi ei wneud ond nid oes cyllid ar hyn o bryd i'w hail wynebu. Byddant yn ei harolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau diogelwch defnyddwyr.
4. dŵr wyneb ger cae chwarae Brynrefail – nid yw'r ffos yn y cae yn gallu ymdopi â'r llif. Mae'r Uned Fwrdeistrefol yn edrych ar y sefyllfa gan obeithio ymgymryd â gwelliannau.
Cysgodfanau bws. Dywedodd Elfed Williams bod gosod cysgodfanau ychwanegol ar y gweill gan Gyngor Gwynedd.
Cae chwarae Brynrefail. Dywedodd Carolyn Roberts nad yw'r ffens wedi ei hatgyweirio – llythyr eto i Wynedd.
Tŷ Elin a Tŷ Bryn, Penisa'rwaun. Nid oedd ateb oddi wrth yr Adran Gynllunio i gŵyn y Cyngor ym mis Rhagfyr. Awgrymodd Aled Green ddanfon cwyn i'r heddlu oherwydd bod y sefyllfa cam ymddwyn yno yn gwaethygu.
Gohebiaethau a materion eraill.
Syr David Brailsford. Cyfeiriodd Richard Ll Jones at lwyddiant David a'i fod hefyd wedi dwyn anrhydedd i'r ardal, penderfynwyd anfon gair i'w longyfarch trwy law ei fam, Mrs Barbara Brailsford.
Clwt y Bont. Cyfeiriodd Gwilym Williams at gyflwr drwg y ffordd i lawr i gyfeiriad Bryn Teg a Thai Califfornia ac atebodd Elfed Williams bod y gwaith gwella yma ar raglen Gwynedd.
Tŷ Mawr Cottages. Dywedodd Aled Green bod dŵr yn sefyll yn y ffordd lle ail-adeiladwyd y bont ers ychydig yn ôl – llythyr i Wynedd.
Lôn Orwig, Brynrefail. Dywedodd Hefin Williams bod tyllau drwg yn y ffordd angen eu llenwi – llythyr i Wynedd.
Y Bont ger Cwt Band, Deiniolen. Dywedodd Elfed Williams ei fod yn trefnu i gael pont gerdded dros dro yno tan i'r brif bont gael ei hail-adeiladu.
Llwybrau. Cyfeiriwyd eto at y wifren bigog ar y gamfa ger Tros Waen, Penisa'rwaun, nid oedd ateb oddi wrth Gwynedd.
Cynllunio
Ceisiadau a dderbyniwyd:
Bwlch Uchaf, Deiniolen – codi estyniad deulawr yn lle'r estyniad un llawr presennol.
Blue Peris Mountain Centre, Dinorwig – cais i wneud gwaith ar goed wedi eu diogelu o dan orchymyn gwarchod coed.
Dyddiad y cyfarfod nesaf: 5ed o Chwefror 2013.


**Llwybr beicio**
Cyfeiriwyd, yng nghyfarfod Cyngor Llanddeiniolen, at yr erthygl "Gêr uwch i Ogwen: pyncjar i Peris" yn rhifyn Rhagfyr/Ionawr o ECO'r Wyddfa, a dyma oedd ymateb y Cyngor:
Fel y gellir gweld o'r cofnodion mae Cyngor Llanddeiniolen wedi bod yn brwydro ers rhai blynyddoedd i gael llwybr beicio o Nant y Garth i Benllyn. Cafwyd ateb gan Gyngor Gwynedd ar un adeg bod y ffordd yn rhy serth (heb glywed bod gêrs ar feic, mae'n amlwg). Ceisiwyd eto ymhen peth amser, gyda chefnogaeth Cynghorau Pentir a'r Felinheli y tro hwn, a chafwyd gwybod bod y cais yn cael ei roi ar restr aros. Yn dilyn y ddamwain ddifrifol rhwng car a beiciwr, ger Gorsaf Beran, yn ddiweddar anfonwyd cais arall i Wynedd gan ofyn pryd y gwneir y gwaith, nid oes ateb hyd yn hyn. Pwysleisiwyd y gallai llwybr iawn fod wedi arbed damwain o'r fath

## ECO'r Wyddfa

# O'r Cynghorau

### Cyngor Cymuned Llanrug

Mewn cyfarfod ar y 18fed o Ragfyr 2012 gwnaethpwyd y penderfyniadau canlynol:
* Trafod pryderon ynglŷn â rhoi'r hawl i breswylwyr Parc Brynteg i aros yno ar hyd y flwyddyn gyda Chymdeithas yr Iaith a chysylltu gyda Swyddog Llwybrau'r Cyngor Sir ynglŷn â'r peryglon i ddefnyddwyr y llwybr cyhoeddus ger y Parc yn dilyn y dympio yno sydd yn achosi i ddŵr or-lifo dros y wal. Roedd y Cyngor hefyd yn siomedig na chafwyd atebion i'r cwestiynau a ofynnwyd eisoes ynglŷn â'r math o wastraff a deflir yno a pheryglon uchder y wal. Bydd y Cadeirydd yn cysylltu gyda'r Cynghorydd Brian Jones ynglŷn â hyn ac i ddatgan pryder na chynhaliwyd cyfarfod arall yng Nghwm-y-glo i drafod y problemau parcio yno.
* Gwrthod cais gan Celtic Souza i osod pibellau o dan gae chwarae Pwllmoelyn ar gyfer y tai sydd yn cael eu hadeiladu ar safle'r Hen Ysgol.
* Nid oedd gwrthwynebiad i'r cais i addasu adeilad gwag yn Yr Hen Ysgol, Caeathro, i 3 uned gwyliau a mannau parcio ond fod pryderon am draffig a fyddai'n dod yn syth ar y ffordd sydd eisoes yn ffordd gyflym iawn.
* Rhoi grant o £700 i Gylch Meithrin Llanrug.
* Trefnu cael archwiliad o'r cerrig beddi yn y fynwent er mwyn cael gweld a oedd rhai ddim yn sefydlog.
* Gofyn i Gyngor Gwynedd gyfyngu'r parcio yn y maes parcio ger Ystorfa Llanrug i arhosiad byr yn unig.
* Cytunwyd mewn egwyddor i gyfrannu tuag at fyrddau newydd i Hafan Elan allan o hen gyfrif elusen 'Llanrug Poor House' ond i gael mwy o wybodaeth am y defnydd a fyddai yn cael ei wneud o'r byrddau.
* Prynu cyfrifiadur newydd i'r Cyngor gan fod problemau gyda'r cyfrifiadur presennol.



GWYNANT PIERCE
Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901


GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTION • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER
POB ACHLYSUR
* Cig o ffermydd lleol
* Partion rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch
DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â:
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYN CIG ☎ 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718188
Gwefan: www.ydyncig.co.uk




Eco Chwefror 2013.indd 23 28/01/2013 20:40

# CROESAIR DIWRNOD Y LLYFR 2013

Cynhelir Diwrnod y Llyfr eleni ar 7 Mawrth, ac mae'r Cyngor Llyfrau wedi trefnu croesair arbennig ar gyfer holl bapurau bro Cymru. **Bydd gwobrau o docynnau llyfrau gwerth £30 yr un ar gael i DRI enillydd lwcus a bydd papurau bro'r tri enillydd yn derbyn siec o £50 yr un**. Felly, dyma gyfle i dderbyn gwobr bersonol a chefnogi'ch papur bro yr un pryd!




Cofiwch mai un llythyren yw CH, DD, NG, LL, RH, TH

**AR DRAWS**

1. Cyfenw bardd a gyhoeddodd ei gyfrol *O Annwn i Geltia* ym mis Mawrth 2012 (7)
4. *Rhyw Fath o _ _ _ _ _ _ _*, nofel am wallgofrwydd cariad gan Lleucu Roberts (7)
9. *Rhywun yn _ _ _ _ _ _*, cyfrol o gerddi i blant gan y prifardd Tudur Dylan a gyhoeddwyd yn 2005 (5)
10. gweler 29 ar draws
12. Ar ei ymweliad wythnosol â'r farchnad hon yr enillodd Tecwyn y Tractor gariad o'r enw Ffergi Lwyd (4)
13. Enw cyntaf awdur y gyfrol i blant, *A Wyddoch Chi am Anifeiliaid Cymru?* (4)
14. Casgliad o limrigau i blant yng Nghyfres Cerddi Gwalch: 1 *Limrigau _ _ _ _ _* (5)
16. *_ _ _ - Cofiant R. Williams Parry*, gan Alan Llwyd (3)
18. Cyfrol a ysgrifennwyd gan Hefin Wyn am un o feirdd amlycaf sir Benfro (2, 6, 5)
20. *Y Pussaka _ _ _*, stori gyffrous i blant 9–10 oed gan Menna Elfyn (3)
21. Enw cyntaf awdur y nofel *Blasu* (5)
23. *Odl-dodl _ _ _ _*, stori ar fydr ac odl sy'n addas i blant dan 7 oed gan Gwion Hallam (4)
25. Enw cyntaf yr awdur a gyhoeddodd ei hunangofiant o dan y teitl *Cofnodion* (4)
26. Enw cyntaf awdur yr hunangofiant *Ymlaen a'r Gân* yn 2003 (6)

29 a 10 ar draws. Hunangofiant arbennig o ddifyr awdures *Amdani!* a *Llinyn Trôns* (5, 5)

30. Enw cyntaf awdur *Cerbyd Cydwybod*, cyfrol o farddoniaeth gan un o arloeswyr y sin roc Gymraeg (6)
31. Nofel gan Mared Lewis a ddewiswyd yn Nofel y Mis yn Ebrill 2012 (3, 1, 3)

**I LAWR**

2. Enw cyntaf awdur y nofel *Tarw Pres*, dilyniant i'w nofel *Pwll Ynfyd* (4)
3. Enw cyntaf awdur *Cerddi Bob Lliw*, cyfrol o gerddi personol ac amryliw a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2011 (5)
5. Cyfenw awdur y gyfrol o gerddi *Ar y Tir Mawr* (6)
6. *Cynnal _ _ _ _ _*, cyfrol gan Eirwyn George sy'n bwrw golwg ar rai o weithgareddau Annibynwyr Sir Benfro (1, 4)
7. Nofel hanesyddol gan Wiliam Owen Roberts a gyhoeddwyd gyntaf ym 1987 (1, 3)
8. Hunangofiant y cerddor a'r athro amryddawn Rhys Jones (3, 3, 2, 3, 2)
9. Enw cyntaf awdur *Madamrygbi – Y Briodas* (4)
11. *Yr Wylan _ _ _*, cyfrol o storïau gan Kate Roberts a gafodd ei hailargraffu yn 2011 (3)
12. Nofel gan Lleucu Roberts sy'n adrodd hanes teulu sydd wedi mynd i fyw eu bywydau trwy sgrin y teledu a sgrin y cyfrifiadur (6)
15. Cyfenw awdur y gyfrol *301* a gyhoeddir yn 2013 (4)
16. Hunangofiant y pysgotwr a'r naturiaethwr o Dregaron, Moc Morgan (3, 3)
17. Casgliad cyntaf John Glyn Jones o gerddi a gyhoeddwyd yn 2010, *_ _ _ _ ac Ysgafn* (4)
19. Cyfrol gyntaf Caryl Lewis o straeon byrion (3)
22. Nofel gan Robat Gruffudd a enillodd iddo Wobr Goffa Daniel Owen yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg, 2012 (6)
23. Lliw'r englynion a gyhoeddwyd gan y Lolfa yn 2001 (4)
24. Cawsom hanes taith Rocet Arwel Jones i'r wlad hon yn ei gyfrol *Diolch i 'Nhrwyn* a gyhoeddwyd yn 2002 (5)
25. Creadur sy'n aelod o dîm golchi ffenestri yn y gyfrol i blant, *Jiráff, a'r Pelican a Fi* gan Roald Dahl (5)
27. Cyfenw'r sawl a gyhoeddodd lyfr â'r teitl *Blwyddyn Fawr* yn 2007 (4)
28. *Yr Un Hwyl a'r Un _ _ _ _*, detholiad o gerddi gan y diweddar gyn-Archdderwydd Dic Jones (4)

**Gall chwilio gwefan www.gwales.com eich helpu gyda'r atebion**

gwales.com
llyfrau ar-lein

**CYNGOR LLYFRAU CYMRU**
**WELSH BOOKS COUNCIL**

**ENW**

**CYFEIRIAD**

**ENW'R PAPUR BRO**

Anfonwch y croesair at: **Croesair Papur Bro, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2JB, erbyn 30 Ebrill 2013. Gofalwch nodi eich enw a'ch cyfeiriad ac enw'ch papur bro lleol.**

DIWRNOD Y
LLYFR
7.3.2013



Eco Chwefror 2013.indd 24 28/01/2013 20:40

**'Y Lengthman'**

Bu dilyw yn curo Eryri,
llifeiriant yn malu fel gordd,
wynebau y lonydd fel cwysi
a tharmac yn dyllau 'mhob ffordd.

Galanast ar loriau sawl aelwyd,
busnesau, am hir, fyddant ar gau...
yr ardal yn syfrdan, mewn arswyd
a chonsyrn, am ei yfory brau.

Pan giliodd y gwaethaf, bu'r holi
a phawb efo'i ddamcaniaeth o'r co'
am amser, pan fyddai y plwyfi
â 'Lengthman' a balchder mewn bro.

Dennis Hughes 'Y Gôt' a Huw Wilias –
eu rhawiau a'r matogau fel drych,
fforch, a chryman mewn sach – ac urddas
baner-goch-y-cyngor yn y gwrych!


Rhaglennu taith tocio y gwrychoedd,
a chrymanu tyfiant min y ffyrdd,
rhaid ydoedd 'nabod cynefinoedd –
pob gwter, cwlfert a'r ffosydd fyrdd.

Gwaith dygn, cymdeithasol oedd ganddynt
tra'n gwneud diwrnod unig o waith,
a heddiw meddyliais amdanynt
a'n cynefin yn gwegian dan graith.

Anaml byddai gaeaf a'i stormydd
yn creu hen stomp fel nawr drwy ein bro...
ond, bellach – mae ceidwad y ffosydd
eu hunain ers blynyddoedd mewn gro!

Norman Closs





**Pen-blwydd Hapus** Dymuna Ken Griffith, Beudy Mawr, ddiolch yn fawr iawn am yr holl anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd gan ei deulu a'i ffrindiau ar achlysur ei ben-blwydd diweddar yn 80. Penderfynodd gyflwyno'r arian a dderbyniodd i Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr i bawb.



**Goleuadau Nadolig** Daeth criw da o bobl ynghyd i ganu carolau ac i oleuo'r goleuadau Nadolig lliwgar ar 30 Tachwedd. Diolch yn fawr i Dafydd Owen o Lanberis am osod y goleuadau.

**Cystadleuaeth** Mins Peis Cynhaliwyd cystadleuaeth Mins Peis yn Ty'n Llan ar 22 Rhagfyr. Roedd llawer o bobl wedi cystadlu ond enillydd y mins peis gorau oedd Bethan Williams o Frynrefail.


SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Cist Gymunedol

Awydd £1,500
tuag at eich prosiect
chwaraeon cymunedol?

Mae'r Gist Gymunedol yn cynnig grant o hyd at £1,500 i gefnogi cynlluniau chwaraeon a gweithgareddau egniol newydd neu ychwanegol yn y gymuned.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Rhian Dobson
Swyddog Datblygu Chwaraeon
rhianeleridobson@gwynedd.gov.uk
Rhif ffôn: 01758 704 057

www.gwynedd.gov.uk

Am gymorth:
• i gychwyn prosiect
• i gael hyfforddiant
• i geisio am grant
• i redeg mudiad
• i wirfoddoli

cysylltwch â Mantell Gwynedd

01286 672626 neu 01341 422575




SWIGOD A SEBON
SYCHLANHAU
Altro • Ailwnïo
GWASANAETH
Casglu a Danfon
Gwasanaeth Golchi a Smwddio
54 STRYD FAWR LLANBERIS
(01286) 870088

Ffrindia'
Rhowch eich ffydd mewn ffrind

Oes gennych chi ychydig o oriau i'w sbario?
Ydych chi yn berson cymdeithasol?
Hoffech chi wneud gwahaniaeth?
Fedrwch chi gynnig cyfeillgarwch?

Mae Ffrindia' angen Gwirfoddolwyr brwdfrydig i gefnogi Unigolion dros 50 oed sydd angen cwmnïaeth.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda:
NIA HAF JONES
01286 685929
nia@mantellgwynedd.com

FINE ART TRADE GUILD
ORIEL CWM
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs:
(01286) 872882
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
Ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan Artistiaid
Lleol
Richard S. Humphreys




Eco Chwefror 2013.indd 25 28/01/2013 20:40

# Ar ben arall i'r lein



*Llifogydd*

Wedi derbyn newyddion ar 19 Tachwedd 2012 fod cwmni Dŵr Cymru yn barod i fuddsoddi'n helaeth mewn systemau carthffos a dŵr wyneb yn ardal Llanberis, wrth gwrs fe fydd hyn yn cymryd cryn amser i'w gyflawni, rhwng pedair a phum mlynedd mae'n debyg. Mae'n amlwg nad yw'r cynigion yma yn boblogaidd iawn ym Mrynrefail ble mae'r gwaith carthffos newydd i'w leoli. Nid yw'r gymdeithas chwaith yn or-hapus am hyn, ond wedi ymladd am dros 20 mlynedd i'r awdurdodau dderbyn bod problem enfawr gyda charthffos ym mhentref Llanberis, oedd ac sy'n dal i lygru dyfroedd Padarn, y teimlad yw y buasai'r clwb yn derbyn y cynigion a disgwyl i glywed be yw teimladau Cymuned Brynrefail a'r Cynghorau Cymunedol lleol.

Mae'n rhaid nad oes llawer o boendod ynglŷn â hyn oherwydd, hyd heddiw, nid oes unrhyw bryder wedi ei fynegi i'r Gymdeithas. Beth fydd rhaid i'r cynghorau dderbyn yw'r ffaith, ar adegau o lifogydd, y bydd arllwysiadau o Frynrefail yn llygru'r caeau at bentref Cwm y Glo. Gwnewch achos da i gael Dŵr Cymru i bibellu y stwff i Treborth cyn i'r cynlluniau sydd ar y gweill gael e'u derbyn, mi fydd yn rhy hwyr wedyn.

Cyn gynted a mae un bygythiad wedi ei oresgyn, yna mae un arall ar y gorwel, sef y cynnig i adeiladu gorsaf gynhyrchu trydan ar safle Glyn Rhonwy. Mae llawer o ohebiaeth yn sôn y bydd cynllun fel hyn yn dda i ddenu cyflogaeth. Mae hynny yn wir, ond a yw be sy'n cael ei gynnig yn mynd i fod o wir fudd i'r fro. Mae dogfennau sydd wedi eu cyflwyno fel rhan o'r cais cynllunio yn cyfeirio at nifer o faterion sy'n gwir bryderu, nid yn unig ni fel 'sgotwrs, ond llawer eraill sydd yn gwerthfawrogi'r amgylchedd.

Mae y cynnig yn gofyn am yr hawl i dynnu dŵr o Lyn Padarn dros gyfnod hyd at ddwy flynedd, hefyd mae gofyn i arllwyso dŵr fel rhan o'r broses gynhyrchu yn ôl i Padarn. Mae sylw Asiantaeth yr Amgylchedd ar hyn yn dweud o bosib y bydd hyn yn rhoi'r sbardyn i'r algai gwyrdd/las ddechrau tyfu eto. Os digwyddith hyn yna cawn ddweud ta ta i Padarn a'r Afon Seiont fel pysgodfa. Os am ddarllen y cais yn cynnwys gwrthwynebiad y gymdeithas yn ei gyfanrwydd edrychwch ar safle we Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd.

Er gwaethaf hyn i gyd mae'n rhaid cynllunio i geisio gwella ein dyfroedd. Yn ystod Tachwedd a Rhagfyr 2012 fe gasglwyd dros 20,000 o wyau eog sydd, ar y funud, yn neorfa'r asiantaeth yn Nolgellau, bydd nifer o'r rhain - oddeutu 2,000 - yn cael eu trosglwyddo i'r ddeorfa yn Crawia yn ystod y dyddiau nesaf a, fel dros y tair blynedd a fu, bydd cywion yn holl 20,000 ar ôl deori yn cael eu gollwng i'r Afon Arddu. Yn ychwanegol fe gasglwyd 15,000 o rawn torgoch o Afon Hwch, bydd rhain eleni yn cael eu gollwng yn ôl i Padarn. O leiaf yn y fan yma mae pethau i weld yn dechrau sefydlu.

Oherwydd sefyllfa fregus y torgoch rydym fel cymdeithas wedi cael awgrym y dylid edrych ar y posibilrwydd o wahardd pysgota am gyfnod i weld sut bydd pethau yn symud ymlaen. Sefyllfa'r clwb ar hyn i gyd yw, yn bresennol er ein bod yn berchenogion neu yn prydlesu holl hawliau Padarn (heblaw rhyw ychydig ger y cwt cwch sydd ym mherchenogaeth Swydd Caint) nid yw ein aelodau yn pysgota'r torgoch, yr unig helfa sy'n digwydd yw gan rai sydd ddim yn aelodau ac yn defnyddio cychod yn anghyfreithlon. Eleni mi fydd y clwb yn gweithredu yn erbyn rhain. Felly ymunwch â'r gymdeithas, da chi, neu mi fydd rheolau yn cael eu gorfodi ac o bosib bydd arwyddion 'Dim Pysgota o Gwbl' a amgylch y lle.

Troi at y Llyfni, drwy ystyried tymor eithriadol 2012 gyda'r sewin mor niferus, mae cryn edrych ymlaen am 2013. Bydd gwaith tacluso yn dechrau cyn bo hir i lawr am Llyn Lan Môr, gwaith arall y bydd yn rhaid ymgymryd ag o yw ail wneud y jeti ar Lyn Nantlle. Mae'r dŵr uchel dros y tymhorau diwethaf wedi ei godi o'i sylfeini. Rhywun am gynnig rhoi cymorth?

Er fod peth o'r gwaith o ail osod Llyn Gwaith Dŵr yn Metws Garmon wedi ei wneud, 'rydym yn dal i ddisgwyl i'r lle gael ei orffen neu mi fydd lle ardderchog i gipio eog yn erbyn ei gynffon yno. Gwaith da ond heb ei orffen! Ni fydd gwaith i ail wneud y llwybr pysgod ar argae Llyn Cwellyn yn cael ei gario allan eleni fel oedd yr addewid. Llusgo traed heb ei angen yma hefyd.

Yn anffodus mae wedi mynd yn orchwyl aml iawn yn ddiweddar i nodi colli eto un o ffyddloniaid y gymdeithas, Mr Cledwyn Jones, Ysbyty, Caeathro, neu 'Cled' fel yr adnabyddir ef . Roedd yn un o gyfarwyddwyr y clwb ers 1996, a chyn hynny yn aelod o'r pwyllgor gwaith am tua hanner can mlynedd. Roedd yn un o'r criw a oedd yn gyfrifol am newid y dull o brydlesu hawliau i fod yn berchenogion. Heb y weledigaeth yma ni fuasai bron dim o'r hawliau ar gael heddiw i bysgotwyr lleol. Fe roddwyd Cledwyn i orffwys ym mynwent Llanbeblig, Caernarfon, ac roedd yn amhosib peidio â sylweddoli ei fod ymysg nifer o'i gyd-'sgotwrs, sef Jim Lovell a Norman Dooley. Diolch iti, Cled, am bopeth, mae dyled yr ardal yn fawr iti am dy weledigaeth a'th frwdfrydedd.

Huw Price Hughes

GERAINT OWEN
CARPEDI
CARPEDI • VINYLS • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK
Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfai Mill Bontnewydd
(01286)650552 Mob. 07712779475



J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG
Gwaith Coffaol
Ffon Gwaith
01286 672898
Cartref
01248 679089
Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA



Eco Chwefror 2013.indd 26 28/01/2013 20:40

# Chwaraeon

## Cyfres Newydd : Cofio



*Tim Llanberis yn nhymor 1963-64. Mae Gwilym a Twm John wedi eu dangos gyda cylch.*




*Twm John Roberts yn arddangos ei dystysgrif am wasanaeth i fyd y beldroed.*

Yn y rhifyn yma rwy'n cychwyn cyfres newydd o erthyglau. Y bwriad yw gofyn i nifer lleol sy'n ymddiddori mewn gwahanol gampau i gofio achlysur, unigolyn, gêm, cyfraniad a.y.y.b. I fyd y bêl-droed rwyn troi i lansio'r gyfres, gyda atgofion un sydd wedi cyfrannu'n helaeth i'r ardal yma sef Thomas John Roberts – Twm John – Llanberis.

Un â anwyd yn Ninorwic, yna cartrefu ym Mrynrefail nes yn naw oed yna symud i Lanberis. Os bu ymroddiad i glwb erioed yna mae Twm John yn enghraifft berffaith. Bu'n gysylltiedig a chlwb Llanberis fel chwaraewr, pwyllgorddyn, trysorydd a thirmon am gyfnod o 71 blwyddyn. Cefais orig ryfeddol yn ei gwmni â'r hen straeon yn byrlymu. Cyfeiriodd at ei gysylltiad gyda thîm ieuenctid Llanberis ers 45 mlynnedd, "a fi sy'n dal i arwyddo'r sieciau." Ymfalchiai fod nifer o'r tîm ieuenctid wedi mynd ymlaen i gynhyrchioli tim hŷn y pentref.

Cofia am awr fawr Tîm yr Urdd dan eu rheolwr y Parch. John Owen yn cipio Cwpan Pantyfedwen. Roedd Twm John a Lal Jones yn cynorthwyo John Owen. Pan ennillwyd y cwpan enfawr awgrymwyd y dylsid ei chadw yn y gist yn y banc lleol. Y gwir mai dan y gwely yn llofft Twm John y cadwyd y gwpan! Ble arall buasai rhywun yn rhoi pot!

Pan ofynais am y cof, llifodd atgofion am sawl gêm, ond at yr unigolion trodd Twm. "Pwy oedd y gorau?" oedd fy nghwestiwn. Daeth tri enw i'r brig. O'r cyfnod cyn yr Ail Ryfel Byd soniodd am John Glyn Jones o'r Chwarel Goch, Llanberis. Chwaraewr medrus yn grewr a sgoriwr goliau.Un a gafodd dreial gyda thim y Wolves, ond â laddwyd uwchben Hamburg yn ystod cyrch fomio, ac yn yr Almaen mae ei fedd. Wedi'r rhyfel cofia Twm am ddyn yn dod i chwilio am J.G. Jones " who had a trial with Wolves."

O ganol y 40'au y 'seren' ym marn Twm oedd Emlyn Davies, ac rwy'n siwr buasai llawer yn cytuno. Bychan o gorff ond meddwl chwim â'r ddawn i ryddhau y bas greadigol. Ond pwy swydd ar y brig.

Un a roddodd dymhorau lu i Lanber, sef Gwilym Williams, Gwil Bach neu Gwil Cwm. Fe gafodd Gwil rhyw gyfnod bach gyda Bangor a Mountain Rangers ond yn ôl i Ffordd Padarn deuai Cwil. Ennillodd dlysau lu fel asgellwr, yn creu a sgorio goliau. Ar faes 'bychan' Llanberis roedd ganddo'r ddawn i ddarganfod 'lle', yna'r croesiad gelfydd gyda'r ddwy droed. Roedd yn 'ddriblwr naturiol' chwedl Twm John, dawn prin iawn heddiw. Wedi ei ddyddiau gyda'r tîm cyntaf roedd Cwil ddigon bodlon i chwarae – a chyd reoli yr ail dim. Yna chwaraeodd tipyn o gemau gydag Alan ei fab, a gwelwyd Gwil hefyd mewn sawl gêm rhwng y pyst. Am ei ddawn a'i deyrngarwch mae Gwil yn haeddu'i le ymysg anfawrolion clwb Llanberis. A'r deyrnged fwyaf dalodd Twm i'r tri ohonynt yw yn ei farn ef " buasai'r tri wedi medru chwarae'n broffesiynol".

Diolch i Twm am wthio'r cwch i'r dwr. I ba gyfeiriad mis nesaf , tybed?

" Pallu cau mae pyllau'r cof."

### FFARWEL

I gwpannau Cymru beth bynnag gyda Llanberis yn colli adref i'r Cofis. I gofio cyflwr y cae cafwyd gêm ddigon gystadleuol, ond profiad y Cofis yn amlwg ar y diwrnod. Gêm arall i'w sawru oedd y darbi Dolig rhwng Llanber a Llanrug. I'r ddwy gêm denwyd torfeydd teilwng iawn a braf cofnodi y twf sylweddol yn y gefnogaeth leol y tymor yma. Gyda llaw, oni fuasai wedi bod yn briodol i gael dyfarnwr Cymraeg ei iaith ar gyfer y darbi. Roedd Saesneg y swyddogion yn sefyll allan mewn awyrgylch hollol Gymreig.

A son am gyflwr trwm Maes Padarn ar hyn o bryd. Mae hyn yn naturiol o gofio'r tywydd rhyfeddol yn ddiweddar. Yn sicr, mae'r cae trwm yn anfantais i'r chwaraewyr ifanc dawnus sydd yn charfan Terry Saynor eleni. Lwcus mewn ffordd nad oes ail dim yno hefyd, er efallai daw hyn yn y dyfodol. Ar y trywydd yma mae'n ymddangos fod y Welsh F.A. yn ceisio hyrwyddo caeau pob tywydd yn enwedig yn yr Uwch Gynghrair. Tybed a welwn ni gae tebyg i wasanaethu Dyffryn Peris yn y dyfodol, â'r clybiau lleol yn rhannu'r cyfleuster?

### LLONGYFARCHIADAU

I David Brailsford wedi ei urddo'n farchog dros y Flwyddyn Newydd. Bu ei gyfraniad i dim seiclo'r Olympiad a thîm Sky yn aruthrol. Bydd angen arweiniad pendant ganddo yn y dyfodol, yn sicr wedi cyfaddefiad Lance Armstrong sy'n codi nifer o amheuon ynglyn â'r gamp.

## RHEDEG MYNYDD

Prin fu'r digwyddiadau dros dymor y gwyliau, ond bydd y tymor rhedeg mynydd yn ail-ddechrau gyda Ras Moel-y-ci fis Chwefror. Yn draddodiadol, hon yw ras fynydd gyntaf y tymor yn ardal Eryri. Bydd yn cychwyn fel arfer o Ganolfan Moel-y-ci, Tregarth. Mae'r ardal eisoes wedi dod i amlygrwydd rhyngwladol yn sgil llwyddiant Marathon Eryri a Ras yr Wyddfa. Eleni, bydd Clwb Rhedwyr Eryri yn gyfrifol am Bencampwriaeth Prydain : Rasys Cyfnewid ar Fynydd ym mis Hydref, a disgwylir dros bum cant o redwyr i gymryd rhan yn ystod y diwrnod. Mae'r trefniadau eisoes ar y gweill.

Daeth y newyddion hefyd fod ardal Llanberis yn cael ei chysidro ar gyfer Pencampwriaethau Rhedeg Mynydd y Byd yn 2015. Mae hyn yn dilyn llwyddiant digamsyniol Pencampwriaethau'r Gymanwlad a gynhaliwyd yma ddwy flynedd yn ôl. Mae'n debyg mai cwrs ar lethrau Moel Eilio a ddefnyddir os bydd y cais yn llwyddiannus.



Eco Chwefror 2013.indd 27 28/01/2013 20:40

# Chwaraeon

## Galwad i garfan Cymru.

Nid yn aml y caiff rygbi sylw ar dudalennau'r 'Eco', a llai fyth o sylw a gaiff unigolion sy'n gwneud eu marc yn genedlaethol yn y gem honno. Ond ar benwythnos olaf Ionawr, roedd Cenin Eifion o Benisarwaun yn ymarfer gyda charfan Rygbi Merched Cymru, a'r gobaith yw y gwelir cap cenedlaethol yn cyrraedd y fro yn fuan. Mae Cenin yn gapten tim rygbi merched Caernarfon, ac yn brysur bob nos Iau yn hyfforddi genethod dan 15 oed a dan 18 oed y clwb.
Ychydig wythnosau cyn y Nadolig cafodd Cenin a dwy arall o dim Caernarfon wahoddiad i ymuno gyda charfan y Scarlets, a chwaraeodd i'r rhanbarth dair gwaith yn erbyn y rhanbarthau eraill. O'r gemau rheini, dewiswyd tim y rhanbarthau(a oedd i bob pwrpas yn golygu ail dim Cymru, neu Gymru B) i chwarae yn erbyn Cymru A. Cafodd Cenin ei dewis i chwarae yn y gem honno hefyd, ac yn dilyn ei pherfformiad fe'i gwahoddwyd i ymuno â charfan Cymru A, sef y garfan genedlaethol a fu'n ymarfer ddiwedd Ionawr.
Does ond gobeithio y bydd ei hymroddiad a'i dyfalbarhad yn esgor ar gap llawn cyn diwedd y tymor hwn.



## Genod Llanrug ar y brig




Rhes gefn : Ela Owen, Manon Thomas, Anest Edwards, Sara Edwards
Rhes flaen : Glesni Edwards, Lois Jones, Llio Emyr

Ychydig dros flwyddyn yn ol roedd Elain Roberts yn cael ei llongyfarch ar gael ei dewis yn gapten tim pel-rwyd Cymru. Cafodd Elain lawdriniaeth i'w phenglin ym mis Hydref y llynedd, ac nid yw wedi ail-ddechrau chwarae eto. Er hynny, mae'n hyfforddi tim pel-rwyd Llanrug, sydd ar hyn o bryd ar frig ail adran Cynghrair Arfon.

Meddai Elain, "Mae'r tim yn gwneud cynnydd anhygoel o gysidro i ni golli llawer o chwaraewyr y llynedd sydd wedi gadael i wahanol golegau. Rydym wedi ennill pob gem, ac yn gobeithio aros felly hyd ddiwedd y tymor. Mae'r genod yn gweithio'n galed iawn i sicrhau hynny ac mae amryw ohonynt wedi eu dewis yn 'Chwaraewraig y Gem' yn wythnosol. Enwyd Heledd Roberts, Lois Jones ac Ela Owen, a byddant yn cystadlu am wobr 'Chwaraewraig y Tymor'."

Maent yn gobeithio cadw eu safon uchel yn ystod y gemau nesaf yn erbyn Porthaethwy, Porthmadg a'r Gleision (tim o ferched yr heddlu).

Pob dymuniad da i'r genod am weddill y tymor.

## GOHIRIO ETO

Gofynodd Dylan Jones ar Ar y Marc i glybiau gysylltu i ddweud os oedd gemau wedi eu gohirio. Daeth y newyddion fod y gêm fawr leol rhwng Dinorwic a'r Fachwen wedi ei gohirio. Ni wnaed unrhyw sylw. Efallai iddynt feddwl mai gêm yn y Caernarfon and District oedd hi. Wn i ddim pwy oedd y tynnwr coes, ond yn sicr roedd y geiriau yn tynnu darlun delynegol iawn. Darlun o hogia'r ddwy ardal yn trefnu gêm. Faint o'r gloch? Ble i gael cae? Pwy sy'n dwad a'r bêl? Ydy hwn a hwn yn cael chwarae – un o Llanbabs ydy o?

Yna'r gem, a'r " dwy gôt yn bystiau y gôl". A'th honna i mewn oddi ar y gôt? Oedd yr ergyd yna rhy uchel? " Buasai'n gôl ym Mangor!" Ydy, mae iaith yn fwy na geiriau. Gyda llaw, oes rhywun yn cofio gêm rhwng Dinorwig a'r Fachwen?